Cyfraith breifat | Mehefin 2026

# Llwybrau trwy'r llys ar gyfer teuluoedd mewn achosion cyfraith breifat

**Awduron**
Linda Cusworth
Jade Hooper
Bachar Alrouh
Zoe Cheng

Nuffield Family Justice Observatory

Adroddiad

**Mae'r adroddiad hwn yn archwilio sut mae teuluoedd yn rhyngweithio â'r llys teulu. Mae'n archwilio pa mor aml y mae teuluoedd sydd wedi bod yn ymwneud ag un cais cyfraith teulu breifat o leiaf yn dychwelyd i'r llys, ac yn ystyried sut mae'r patrymau hyn yn amrywio yn ôl eu nodweddion a'u hamgylchiadau.**

**Awduron**
Linda Cusworth, Prifysgol Caerhirfryn
Jade Hooper, Prifysgol Caerhirfryn
Bachar Alrouh, Prifysgol Caerhirfryn
Zoe Cheng, Prifysgol Caerhirfryn

**Cyfeiriad argymelledig**
Cusworth, L., Hooper, J., Alrouh, B. a Cheng, Z. (2026). *Llwybrau trwy'r llys ar gyfer teuluoedd mewn achosion cyfraith breifat*. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/routes-through-court-for-families-in-private-law-proceedings

Ar gael yn Saesneg o: www.nuffieldfjo.org.uk

**Ymwadiad**
Mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield wedi ariannu'r prosiect hwn, ond safbwyntiau'r awduron yw'r rhai a fynegir ac nid, o reidrwydd, Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield na'r Sefydliad.

Hawlfraint © Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield 2026
100 St John Street, Llundain EC1M 4EH Rhif ffôn: 020 7631 0566
Elusen gofrestredig 206601
nuffieldfjo.org.uk | @NuffieldFJO www.nuffieldfoundation.org | @NuffieldFound

# Cynnwys

Crynodeb ........................................................................................................ i
Cyflwyniad ........................................................................................................ 1
Methodoleg ........................................................................................................ 3
Canfyddiadau ........................................................................................................ 7
Trafodaeth ........................................................................................................ 37
Cyfeiriadau ........................................................................................................ 40

# Rhagair

Mae gan bob teulu y mae ei achos yn dod gerbron y llys teulu gyd-destun a phrofiad unigryw. Fodd bynnag, er bod tua 80,000 o blant yn ymwneud ag achosion cyfraith breifat bob blwyddyn, ychydig iawn a wyddys am batrymau cyffredinol beth sy'n digwydd i'r teuluoedd hynny pan fyddant yn cyrraedd drws y llys.

Mae'r adroddiad hwn yn gam pwysig tuag at ddeall teithiau teuluoedd trwy broses y llys. Mae'n herio rhai o'r tybiaethau ynglŷn â pha mor aml y mae teuluoedd yn dychwelyd i'r llys. Mae'r data'n dangos bod y rhan fwyaf o deuluoedd sy'n ymwneud ag achosion cyfraith breifat yn dod i'r llys unwaith yn unig a bod y rhai sy'n dychwelyd yn tueddu i wneud hynny unwaith yn unig.

Ond mae'n bwysig nodi bod y lleiafrif sy'n dychwelyd, sef tua thraean, yn cynrychioli nifer sylweddol o deuluoedd o hyd. Ac nid yw'n cymryd llawer o amser iddynt ddychwelyd i'r llys – ar gyfartaledd, mae llai na dwy flynedd o ddechrau'r achos cyntaf i ddechrau'r nesaf. Mae hyn yn codi cwestiynau pwysig ynglŷn â ph'un a gollir cyfleoedd i greu trefniadau diogel a pharhaol ar yr ymgais cyntaf.

Mae lleiafrif bach ond pwysig o deuluoedd yn ymwneud ag achosion cyfraith breifat a chyhoeddus. Ar gyfer y grŵp hwn, daw achosion cyfraith breifat gyntaf fel arfer ac, unwaith eto, mae'r bwlch rhwng achosion yn fyr iawn – llai na dwy flynedd. Yn yr achosion hyn, mae symud o'r cyd-destun preifat i gyhoeddus yn awgrymu bod y risg a'r pryder wedi cynyddu, yn hytrach na bod rhyngweithiad cyntaf y teulu â'r llys yn rhoi cyfle i fynd i'r afael â'r problemau maen nhw'n eu hwynebu.

Mae llawer o'r canfyddiadau hyn yn codi mwy o gwestiynau. Gyda'n gilydd, mae angen i ni archwilio sut rydym yn defnyddio pob cysylltiad â theuluoedd yn y llys i gael yr effaith orau. Mae angen i ni drin pob cam o broses y llys fel cyfle i gynorthwyo teuluoedd i ddatrys yr heriau maen nhw'n eu hwynebu a helpu plant a theuluoedd i ffynnu.

Lisa Harker, Cyfarwyddwr Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield

# Crynodeb

## Cefndir – beth mae'r adroddiad hwn yn ei archwilio?

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio sut mae teuluoedd yn rhyngweithio â'r llys teulu. Mae'n archwilio pa mor aml y mae teuluoedd sydd wedi bod yn ymwneud ag un cais cyfraith teulu breifat o leiaf yn dychwelyd i'r llys, ac yn ystyried sut mae'r patrymau hyn yn amrywio yn ôl eu nodweddion a'u hamgylchiadau.

Mae'r adroddiad yn ystyried pedwar math o daith:

- **cais unigol yn ymwneud â rhieni –** mae rhieni'r plentyn yn ymwneud â chais cyfraith breifat unigol (nid cyfraith gyhoeddus)
- **ceisiadau dychwelyd sy'n ymwneud â rhieni –** mae'r rhieni'n ymwneud â mwy nag un cais cyfraith breifat (nid cyfraith gyhoeddus)
- **ceisiadau lle mae rhieni'n ymwneud â chyfraith breifat a chyhoeddus –** mae'r rhieni'n ymwneud ag un cais cyfraith breifat o leiaf ac un cais cyfraith gyhoeddus o leiaf
- **ceisiadau sy'n ymwneud â phobl nad ydynt yn rhieni –** ceisiadau cyfraith breifat sy'n ymwneud ag un unigolyn o leiaf nad yw'n rhiant (cais 'ansafonol').

### Dulliau a data

Mae'r gwaith ymchwil hwn yn defnyddio data gweinyddol gan Cafcass a Cafcass Cymru – y sefydliadau sy'n cynrychioli pennaf les plant yn annibynnol yn y llysoedd teulu. Cyrchwyd y data ar ffurf ddienw trwy Fanc Data SAIL.

Mae'r dadansoddiad yn ymdrin â charfan o oedolion a gafodd gais cyfraith breifat gyntaf rhwng 1 Ionawr 2016 a 31 Rhagfyr 2018 – 176,760 o oedolion yn Lloegr a 12,710 o oedolion yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod canfyddiadau'r adroddiad hwn yn rhagflaenu gweithredu'r Cynllun Braenaru Cyfraith Breifat (model peilot o achosion cyfraith breifat a weithredwyd mewn rhai rhannau o Gymru a Lloegr o 2022 ymlaen).

Mae'r data'n disgrifio nodweddion, anghenion a ffactorau risg oedolion a phlant, gan gymharu rhwng y rhai sy'n dilyn gwahanol lwybrau trwy'r llys teulu. Dadansoddwyd ceisiadau cyfraith breifat sy'n dychwelyd o fewn pum mlynedd ac ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus yn ystod y pum mlynedd cyn ac ar ôl cais cyfraith breifat cyntaf oedolyn.


O ganlyniad i'r data cysylltiedig a oedd ar gael, ni allai'r ymchwil archwilio materion fel hyd achosion, cynrychiolaeth gyfreithiol a'r gorchmynion a wnaed ar ddiwedd yr achos.

# Canfyddiadau allweddol

## Ceisiadau rhwng rhieni

- **Nid yw'r rhan fwyaf o rieni sy'n mynd i'r llys i wneud trefniadau ar gyfer eu plant yn dychwelyd i'r llys.** Fodd bynnag, daeth traean (31%) o rieni yn Lloegr a dwy ran o bump (39%) o rieni yng Nghymru yn ôl i'r llys ar gyfer achos cyfraith breifat arall o fewn pum mlynedd (y grŵp 'ceisiadau dychwelyd yn ymwneud â rhieni').[1]

**Ffigur i: Rhieni sy'n ymwneud â chais unigol a dychweliadau i'r llys (Cymru a Lloegr)**




- **Pan fydd rhieni'n dod yn ôl i'r llys ar gyfer achos cyfraith breifat arall, maen nhw'n tueddu i ddychwelyd unwaith yn unig.** Daeth dwy ran o dair o rieni a ddychwelodd i'r llys yn Lloegr (67%) ac ychydig yn llai na dwy ran o dair yng Nghymru (63%) yn ôl i'r llys unwaith yn unig yn ystod y pum mlynedd ar ôl eu cais cyntaf.

- **Pan fydd rhieni'n dychwelyd, maen nhw'n gwneud hynny'n gymharol gyflym.** Roedd yr amser rhwng cais cyntaf a chais dychwelyd yn 21 mis yn Lloegr a 19 mis yng Nghymru, ar gyfartaledd. Mae hyn yn codi cwestiwn ynglŷn â ph'un a oedd y rhyngweithiad cychwynnol â'r llys wedi helpu'r rhieni i wneud trefniadau ymarferol ar gyfer y dyfodol, a/neu a oedd y gorchymyn cychwynnol yn ddiogel ac yn ymarferol, yn y lle cyntaf.

- **Mae rhieni sy'n dychwelyd yn amlach hefyd yn dychwelyd i'r llys yn gyflymach.** O ran rhieni a ddychwelodd i'r llys ddwywaith yn ystod y pum

[1] Nid yw hyn yn cynnwys oedolion sy'n rhan o achosion nad ydynt yn ymwneud â rhieni neu achosion cyfraith gyhoeddus.

mlynedd, aeth 17 mis heibio ar gyfartaledd rhwng cais cyntaf a chais dychwelyd yng Nghymru a Lloegr. O ran rhieni a ddychwelodd i'r llys deirgwaith neu fwy yn ystod y pum mlynedd, roedd yr amser cyfartalog rhwng cais cyntaf a chais dychwelyd yn 12 mis yn Lloegr a 13 mis yng Nghymru. Mae'r data'n awgrymu, ar gyfer y grŵp bach hwn o rieni, y gallai fod yn arbennig o anodd canfod datrysiad parhaol.

- **Fe allai teuluoedd sy'n ymwneud ag achosion dychwelyd fod yn wynebu mwy o heriau.** Roedd pryderon ynglŷn â cham-drin domestig (y ffactor risg mwyaf cyffredin ar gyfer pob grŵp), iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau, camddefnyddio alcohol a lles plant yn fwy tebygol o gael eu cofnodi yn nata Cafcass ar gyfer rhieni a oedd yn dychwelyd i'r llys, o gymharu â rhieni a ddaeth i'r llys unwaith yn unig.[2] Mae'n bosibl bod hyn yn rhannol adlewyrchu mwy o ymwneud proffesiynol, gan fod mwy o gyfle i Cafcass adnabod a chofnodi pryderon.

- **Mae teuluoedd mewn rhai ardaloedd yn fwy tebygol o ddychwelyd i'r llys, ac fe allai fod perthynas rhwng dychweliadau a chyfran yr adroddiadau lles a orchmynnir.** Mae rhieni yng Nghymru yn fwy tebygol o ddychwelyd na rhieni yn Lloegr. Yng Nghymru, mae rhieni'n fwyaf tebygol o ddychwelyd i'r llys yn Abertawe (45%) ac yn lleiaf tebygol yng ngogledd Cymru (34%). Yn Lloegr, mae rhieni'n fwyaf tebygol o ddychwelyd i'r llys yn y de-orllewin (35%) ac yn lleiaf tebygol yn Llundain (30%). Mae ymchwil flaenorol (Hargreaves et al. 2024) wedi dangos bod llysoedd yn ne-orllewin Lloegr hefyd yn lleiaf tebygol o orchymyn adroddiadau lles. Fe allai hyn awgrymu nad yw rhai materion yn cael eu harchwilio a'u trin yn ddigonol yn ystod cais cyntaf, a bod teuluoedd yn dychwelyd i'r llys am y rheswm hwn. Bydd yn bwysig gweld a yw'r model Braenaru, sy'n disgwyl bod Adroddiadau Effaith ar y Plentyn yn cael eu cynhyrchu ym mhob achos, yn effeithio ar gyfran yr achosion sy'n dychwelyd.

## Cyfraith breifat a chyhoeddus

- **Mae lleiafrif pwysig o deuluoedd yn ymwneud â chyfraith breifat a chyhoeddus.** O'r rhieni a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat, roedd 4% yn Lloegr a 3% yng Nghymru hefyd yn ymwneud â chais cyfraith gyhoeddus o fewn pum mlynedd. Felly, fe allem amcangyfrif bod rhwng 6% ac 8% o oedolion sy'n ymddangos mewn achosion gofal yn ymwneud â chais cyfraith breifat rhwng dau riant, hefyd.[3]


- **Mae cyfraith breifat yn dod gyntaf fel arfer, ac fe allai'r system cyfiawnder teuluol fod yn colli cyfleoedd i gynnig cymorth a mynd i'r afael â risg ar y cam hwn.** Daeth y rhan fwyaf o rieni yn y grŵp 'gorgyffwrdd'

[2] Nid yw'r data hwn ar gael yng Nghymru.

[3] Amcangyfrifir hyn trwy rannu nifer yr oedolion yn y 'grŵp gorgyffwrdd' yn y dadansoddiad hwn â nifer yr oedolion a oedd yn ymwneud ag achosion gofal a goruchwylio adran 31 yn 2017/18 o ddadansoddiad cynharach o ddata Cafcass (Cusworth et al. 2023), er bod rhai cyfyngiadau. Mae'r dadansoddiad presennol wedi'i seilio ar gyfnod o dair blynedd, felly cymerir rhif blynyddol cyfartalog, yn seiliedig ar flynyddoedd calendr, yn hytrach na blynyddoedd ariannol.

hwn yn Lloegr[4] (78%) i'r llys mewn cais cyfraith breifat i ddechrau, a ddilynwyd gan un achos cyfraith gyhoeddus. Roedd cyfrannau llai yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus yn gyntaf (18%) neu'n ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus cyn ac ar ôl cyfraith breifat (4%).

**Ffigur ii: Llwybrau a ddilynwyd gan oedolion a oedd yn ymwneud â chyfraith breifat a chyhoeddus (Lloegr)**




Roedd achos cyfraith gyhoeddus yn dechrau 23 mis ar ôl cais cyfraith breifat ar gyfartaledd ac, ym mwyafrif helaeth yr achosion, nid oedd adroddiad adran 37 yn llwybr rhwng y ddau: dim ond 15% o rieni a symudodd ymlaen o gyfraith breifat i gyhoeddus oedd ag adroddiad adran 37 a orchmynnwyd gan y llys.

Mewn cyfraith gyhoeddus a phreifat, mae'r llys yn gyfrifol am hyrwyddo lles y plentyn. Mae'n bosibl y bydd pryderon lles a diogelwch yn dod i'r amlwg am y tro cyntaf mewn achosion cyfraith breifat, ac mae angen i'r llys fanteisio i'r eithaf ar yr ymyrraeth honno mewn bywyd teuluol i amlygu heriau a risgiau a gwella amgylchiadau plant, lle bynnag y bo'n bosibl. Byddai'n ddefnyddiol archwilio'r achosion hyn yn fanylach er mwyn deall a oes unrhyw beth arall y gallai'r llys a gwasanaethau eraill ei wneud i fynd i'r afael â'r heriau y mae teuluoedd yn eu hwynebu a chadw plant yn ddiogel.

- **Mae'n ymddangos bod teuluoedd sy'n ymwneud â chyfraith breifat a chyhoeddus yn wynebu mwy o heriau na grwpiau eraill yn y data, gan gynnwys lefelau uwch o amddifadedd.** Roedd gan rieni yn y grŵp hwn y lefelau uchaf a gofnodwyd o bryderon ynglŷn â cham-drin domestig, iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau a chamddefnyddio alcohol. Nid yw'n syndod bod pryderon ynglŷn â lles plant yn fwy cyffredin ymhlith y grŵp hwn hefyd, gan gynnwys cam-drin emosiynol, esgeulustod, cam-drin corfforol a cham-drin rhywiol. Roedd adroddiadau lles yn cael eu gorchymyn yn amlach nag ar gyfer ceisiadau nad oeddent yn croesi drosodd i gyfraith gyhoeddus. Fodd

[4] Gan fod nifer yr oedolion mewn cais cyfraith breifat safonol yng Nghymru a oedd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus yn gymharol fach, mae'r dadansoddiad hwn ar gael ar gyfer Lloegr yn unig.


bynnag, fe allai'r data ar gyfer y grŵp hwn adlewyrchu'r ffaith bod Cafcass yn ymwneud llawer mwy â theuluoedd mewn achosion cyfraith gyhoeddus.

- **Mae'r data'n awgrymu bod rhieni y mae eu hachosion yn croesi drosodd i gyfraith gyhoeddus yn llai tebygol o fod yn Asiaidd ac yn fwy tebygol o fod yn Wyn.**[5] Yn y grŵp hwn, cofnodwyd bod 85% o rieni'n Wyn, o gymharu ag 81% o rieni a oedd yn ymwneud â cheisiadau cyfraith breifat yn unig. Mae'n ymddangos bod hyn yn cael ei ysgogi'n bennaf gan y gyfran is o rieni Asiaidd sy'n croesi drosodd i gyfraith gyhoeddus: roedd 8% o rieni a oedd yn ymwneud â cheisiadau cyfraith breifat yn benodol yn Asiaidd, o gymharu â 5% o rieni a oedd yn ymddangos mewn cyfraith breifat a chyhoeddus. Mae ansawdd data ethnigrwydd Cafcass/Cafcass Cymru yn wael, er ei fod wedi gwella, ac mae lefelau uchel ac amrywiol o ddata ar goll. Mae angen mwy o ymchwil i archwilio'r canfyddiad hwn a deall ei oblygiadau.

## Ceisiadau yn ymwneud â phobl nad ydynt yn rhieni

- **Yn unol ag ymchwil flaenorol, roedd y cais cyfraith breifat cyntaf ar gyfer lleiafrif arwyddocaol o oedolion (17% yn Lloegr a 22% yng Nghymru) yn ymwneud ag un neu fwy o oedolion nad oeddent yn rhieni, ac roedd y rhan fwyaf yn debygol o fod yn ymwneud â threfniadau gofal gan berthynas.** Roedd ceisiadau yn ymwneud â phobl nad ydynt yn rhieni ar gyfer gorchymyn trefniadau plentyn, gan amlaf. Mae ymchwil flaenorol yn awgrymu mai rhieni-cu yw'r grŵp hwn, fel arfer, sy'n gwneud cais am orchmynion 'yn byw gyda' (Cusworth et al. 2023).

**Ffigur iii: Pwy yw'r bobl nad ydynt yn rhieni?**




**Ffynhonnell:** Cusworth et al. (2023).

- **Mae ceisiadau sy'n ymwneud â phobl nad ydynt yn rhieni yn fwy tebygol o gyfuno cyfraith gyhoeddus a phreifat.** Yn Lloegr, roedd 11% o oedolion mewn achos cyfraith breifat nad oedd yn ymwneud â rhieni yn rhan o achos cyfraith gyhoeddus yn ystod y pum mlynedd cyn neu ar ôl eu cais cyfraith breifat. Felly, fe allem amcangyfrif bod tua 4% o achosion cyfraith gyhoeddus yn cynnwys oedolyn sydd wedi ymddangos yn flaenorol mewn cais cyfraith

[5] Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r pum categori grŵp ethnig a ddefnyddir gan Cafcass a Cafcass Cymru, sef yr un rhai â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a chyfrifiad 2021.

breifat yn ymwneud ag unigolyn nad yw'n rhiant, neu y bydd yn ymddangos mewn cais o'r fath yn ddiweddarach.

- **Mae pobl nad ydynt yn rhieni yn llai tebygol na rhieni o ddychwelyd i'r llys ar gyfer achos cyfraith breifat ychwanegol.** Yn Lloegr, roedd 19% o oedolion a ddaeth i'r llys gyntaf mewn achos cyfraith breifat yn ymwneud ag unigolyn nad yw'n rhiant wedi mynd ymlaen i fod yn rhan o gais cyfraith breifat ychwanegol.[6]

- **Mae oedolion mewn achosion sy'n ymwneud â phobl nad ydynt yn rhieni yn fwy tebygol o wynebu'r rhan fwyaf o fathau o heriau na rhieni sy'n dod i'r llys unwaith.** Roedd oedolion mewn achosion nad ydynt yn ymwneud â rhieni yn fwy tebygol o gael pryderon ynglŷn ag iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau a chamddefnyddio alcohol wedi'u cofnodi. Fodd bynnag, roeddent yn llai tebygol o gael pryderon ynglŷn â cham-drin domestig wedi'u cofnodi. Roedd pryderon lles plant hefyd yn cael eu cofnodi'n amlach ar gyfer oedolion mewn achosion cyfraith breifat nad ydynt yn ymwneud â rhieni nag ar gyfer rhieni a ddaeth i'r llys unwaith.

Unwaith eto, fe allai cyfleoedd i weithwyr proffesiynol adnabod a chofnodi'r heriau a brofir gan deuluoedd ddylanwadu ar y data. Gan fod Cafcass yn cyfrannu llai at achosion nad ydynt yn ymwneud â rhieni, yn enwedig o ystyried y gyfran isel o adroddiadau lles ac ymchwiliadau a orchmynnir ar gyfer y grŵp hwn, fe allai'r data ar gyfer y grŵp hwn dangynrychioli'r anawsterau sy'n wynebu oedolion mewn achosion nad ydynt yn ymwneud â rhieni.

- **Yn Lloegr, mae oedolion mewn achosion nad ydynt yn ymwneud â rhieni yn fwy tebygol o fod yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.** Roedd dros draean (35%) o'r oedolion mewn achosion nad ydynt yn ymwneud â rhieni yn byw yng nghwintel mwyaf difreintiedig Lloegr, o gymharu â 29% o'r oedolion a oedd yn ymwneud â chais unigol rhwng rhieni.

- **Nid yw adroddiadau lles yn cael eu gorchymyn mor aml mewn ceisiadau sy'n ymwneud â phobl nad ydynt yn rhieni.** Roedd adroddiad adran 7, adroddiad adran 37 neu benodi gwarcheidwad rheol 16.4 yn llai tebygol o fod wedi cael eu gorchymyn mewn achosion nad oeddent yn ymwneud â rhieni (42%), o gymharu ag achosion a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat unigol rhwng rhieni (50%). Mae hyn er gwaethaf y lefel uwch o risgiau lles a gofnodwyd yn y data, y lefelau uwch o bryder ynglŷn â lles plant a'r cyfraddau uwch o ymwneud gan gyfraith gyhoeddus. Mae hyn yn codi cwestiynau pwysig ynglŷn â sut mae'r materion cymhleth o bosibl yn yr achosion hyn yn cael eu harchwilio a sut mae llais y plentyn yn cael ei glywed.

- **Mae'n bosibl nad yw oedolion o leiafrifoedd ethnig yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn achosion nad ydynt yn ymwneud â rhieni.** Yn y grŵp hwn, cofnodwyd bod 86% o'r oedolion yn Wyn, o gymharu ag 81% o'r oedolion mewn achosion cyfraith breifat rhwng rhieni. Fodd bynnag, mae ansawdd y data ethnigrwydd yn wael, gyda lefelau uchel ac amrywiol o ddata

[6] Nid yw hyn yn cynnwys oedolion a oedd hefyd yn ymwneud ag achosion cyfraith gyhoeddus.

ar goll. Mae angen mwy o ymchwil i archwilio’r canfyddiad hwn a deall ei oblygiadau.

# Mae angen rhagor o waith

Mae’r gwaith ymchwil hwn yn taflu goleuni ar deithiau teuluoedd sy’n ymwneud ag achosion cyfraith breifat. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau sylweddol i’r hyn y gall data Cafcass a Cafcass Cymru ei ddweud wrthym am agweddau fel hyd achosion, cynrychiolaeth gyfreithiol y partïon, a’r gorchmynion terfynol. Y bwriad gwreiddiol ar gyfer yr adroddiad hwn oedd ategu’r wybodaeth hon â data FamilyMan Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF (HMCTS), wedi’i gysylltu â chofnodion Cafcass a Cafcass Cymru, i alluogi dadansoddiad mwy cynhwysfawr. Yn anffodus, roedd problemau parhaus wrth gysylltu data’n golygu nad oedd hyn yn bosibl.

Mae absenoldeb y data hwn yn parhau i fod yn rhwystr sylweddol rhag datblygu dealltwriaeth lawn o brofiadau teuluoedd yn y llysoedd teulu. Er mwyn sicrhau bod datblygiadau polisi ac ymarfer mewn cyfraith breifat wedi’u seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, mae’n hanfodol bod yr heriau cysylltu data hyn yn cael eu datrys ar frys.

# Cyflwyniad

Mae achosion cyfraith teulu breifat yn cael eu hysgogi gan benderfyniadau unigolion preifat, sef rhieni sydd wedi gwahanu fel arfer, sy’n ceisio datrys dadleuon ynglŷn â threfniadau magwraeth plentyn, fel ble y dylai fyw a/neu bwy y dylai ei weld. Mae hyn yn wahanol i achosion cyfraith gyhoeddus, sy’n cael eu dwyn gan yr awdurdod lleol fel ymyrraeth wladol, lle yr amlygir bod plentyn mewn perygl o niwed.

Yn 2023, gwnaed 53,066 o geisiadau cyfraith breifat, yn ymwneud â 77,928 o blant, a ddechreuodd eu taith drwy’r llysoedd teulu, o gymharu â 15,754 o geisiadau cyfraith gyhoeddus yn ymwneud â 26,802 o blant (y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2025). Er gwaethaf y niferoedd sylweddol uwch, mae’r sylfaen dystiolaeth i lywio polisi ac ymarfer yn llai datblygedig o lawer ar gyfer cyfraith breifat na chyfraith gyhoeddus. Gwnaeth y gyfres o adroddiadau *Datgelu Cyfraith Teulu Breifat* gan y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol (FJDP, cydweithrediad rhwng Prifysgolion Caerhirfryn ac Abertawe, a ariannwyd gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield rhwng 2019 a 2024) gamau breision ymlaen wrth fynd i’r afael â’r diffyg. Trwy ddadansoddi data cyfiawnder teuluol gweinyddol ar lefel y boblogaeth, ystyriodd y gyfres bwy sy’n dod i’r llys yn Lloegr (Cusworth et al. 2021a) a Chymru (Cusworth et al. 2020); nodweddion a ffactorau risg oedolion sy’n gysylltiedig (Cusworth et al. 2021b); anghenion iechyd meddwl plant (Griffiths et al. 2022); yr hyn y gall y data ei ddweud wrthym am gyfranogiad plant (Hargreaves et al. 2022, 2024); a nodweddion ac amgylchiadau ceisiadau cyfraith breifat sy’n ymwneud â phobl nad ydynt yn rhieni (Cusworth et al. 2023).

Mae’r adroddiadau hyn yn rhoi cipolwg ar gyfraith breifat, fel arfer ar yr adeg y gwnaed ceisiadau i’r llys. Mae’r adroddiad hwn yn symud ymlaen i archwilio dynameg achosion cyfraith breifat, gan gynnwys faint o oedolion sy’n dychwelyd i’r llys mewn achos cyfraith breifat arall neu sydd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus a ph’un a yw’r llwybrau trwy’r llys teulu’n amrywio yn ôl demograffeg y teulu neu ddaearyddiaeth. Trwy ddadansoddi data ar lefel y boblogaeth, mae’r adroddiad hwn yn ceisio cynyddu ein dealltwriaeth o lwybrau achosion cyfraith breifat yng Nghymru a Lloegr trwy’r llys. Llywiwyd y dadansoddiad gan adolygiad cynhwysfawr o’r dystiolaeth gyfredol, a gyhoeddwyd ar wahân (Cheng a Cusworth, 2025). Amcanion yr astudiaeth oedd:

- gwahaniaethu rhwng y gwahanol lwybrau a ddilynir gan oedolion sy’n ymwneud â chais cyfraith teulu breifat
- disgrifio nodweddion yr oedolion a ddilynodd wahanol lwybrau a’r plant sy’n gysylltiedig, o ran oedran, rhywedd, amddifadedd ar lefel ardal, anabledd ac ethnigrwydd
- archwilio dangosyddion pryderon lles, gan gynnwys presenoldeb adroddiadau ac ymchwiliadau a orchmynnwyd gan y llys, ffactorau risg a gofnodwyd ar gyfer oedolion a phryderon ynglŷn â cham-drin ac esgeuluso plant

- ymchwilio i brofiadau oedolion sy'n dychwelyd i'r llys mewn ceisiadau cyfraith breifat dilynol, sydd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus, neu sy'n rhan o gais nad yw'n ymwneud â rhiant.

# Nodyn ynghylch mynediad at ddata

Y bwriad gwreiddiol oedd defnyddio set ddata Data First y llys teulu, sy'n cysylltu data llys teulu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder â data Cafcass a Chyfrifiad 2021.[7] Byddai hyn wedi galluogi ymchwilio i'r gorchmynion cyfreithiol terfynol a wnaed a hyd achosion, ynghyd ag ystyried ystod ehangach o nodweddion oedolion a phlant. Yn anffodus, ni fu'n bosibl. Gwrthododd Panel Mynediad at Ddata HMCTS fynediad at ddata Cyfrifiad 2021. Roedd y data llys teulu ar gael o fewn Banc Data SAIL, ond ni ellid cyfateb digon o gofnodion ar lefel unigol i allu dadansoddi. Gwnaed cryn dipyn o waith i wella'r cysylltiad gan ddefnyddio dynodyddion ar lefel achosion, ond ni fu'n llwyddiannus o fewn graddfa amser y prosiect.

[7] Gweler www.adruk.org/data-access/flagship-datasets/data-first-family-court-linked-to-cafcass-and-census-2021-england-and-wales

# Methodoleg

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data gweinyddol ar lefel y boblogaeth gan Cafcass (Lloegr) a Cafcass Cymru (Cymru), sef y sefydliadau sy'n cynrychioli pennaf les plant yn annibynnol mewn achosion llys teulu. Cyrchwyd y data'n ddiogel trwy'r Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) (Ford et al. 2009; Jones et al. 2014, 2020). Mae rhagor o wybodaeth am ddata Cafcass a Cafcass Cymru ar gael yn Bedston et al. (2020) a Johnson et al. (2020).

Mae'r astudiaeth yn cynnwys yr holl geisiadau cyfraith breifat o fewn achos cyfraith breifat (fel y'i diffinnir gan Cafcass neu Cafcass Cymru) a wnaed yng Nghymru a Lloegr rhwng 1 Ionawr 2011 a 31 Rhagfyr 2023, ac a oedd yn ymwneud ag un ymgeisydd o leiaf, sef un ymatebydd ac un plentyn a oedd yn destun y cais.

Categoreiddiwyd ceisiadau'n 'safonol' (rhwng dau riant) neu'n 'ansafonol' (yn cynnwys pobl nad ydynt yn rhieni fel ymgeiswyr a/neu ymatebwyr), yn seiliedig ar y berthynas rhwng yr oedolion (ymgeiswyr ac ymatebwyr) a'r plentyn (ieuengaf) (y testun).[8] Dad-ddyblygwyd ceisiadau,[9] ac yna fe'u dilyniannwyd ar lefel oedolion yn ôl y dyddiad cyflwyno a rhif adnabod y cais wedi'i ddad-ddyblygu.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar lwybrau trwy'r llys ar gyfer oedolion a wnaeth gais cyfraith teulu breifat cychwynnol[10] rhwng 1 Ionawr 2016 a 31 Rhagfyr 2018, yng Nghymru neu Loegr. Mae hyn yn golygu bod y canfyddiadau'n rhagflaenu gweithredu'r cynllun peilot Braenaru Cyfraith Breifat.[11] Dewiswyd y garfan hon i ganiatáu cyfnod dilynol o bum mlynedd i archwilio unrhyw geisiadau cyfraith breifat dilynol. Roedd dadansoddiad sensitifrwydd o'r set ddata lawn, yn rhychwantu 2011 i 2023, wedi llywio'r broses o ddewis y garfan a'r cyfnod dilynol trwy asesu ansawdd amrywiol dros amser a'r hyd cyfartalog rhwng ceisiadau cyntaf a dilynol. Gwnaethom hefyd greu carfan cyfraith gyhoeddus o'r holl geisiadau ar gyfer gorchymyn gofal neu oruchwyliaeth adran 31 yn ystod y cyfnod hwn, ar lefel oedolion, i ystyried a oedd oedolion a wnaeth gais cyfraith breifat cychwynnol yn 2016-18 hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus.

Cynhaliwyd y dadansoddiad ar lefel oedolion. Ar gyfer pob oedolyn, archwiliwyd eu cais cyfraith breifat cychwynnol ac unrhyw geisiadau cyfraith breifat dilynol a

---

[8] Categoreiddiwyd ceisiadau lle'r oedd perthynas 'anhysbys' rhwng un neu fwy o oedolion a'r plentyn ieuengaf (y testun) yn geisiadau ansafonol.

[9] Cyfunwyd ceisiadau os oedd ganddynt yr un rhif adnabod gwlad, rhif adnabod achos, dyddiad cyflwyno, ymgeiswyr, ymatebwyr a gorchmynion yr ymgeisiwyd amdanynt. Cyfunwyd ceisiadau hefyd lle'r oedd nifer o blant yn gysylltiedig ond ceisiwyd yr un gorchymyn. Ni chyfunwyd ceisiadau os ceisiwyd gorchmynion gwahanol ar gyfer plant gwahanol, hyd yn oed pan oedd yr holl fanylion eraill yr un peth.

[10] Mae'r data sydd ar gael yn mynd yn ôl i 2011, felly mae'n bosibl y gallai unigolion wedi bod yn ymwneud â chais cyn y dyddiad hwn nad yw wedi'i gofnodi yn y set ddata.

[11] Rhoddwyd Llysoedd Braenaru peilot, sy'n defnyddio dull datrys problemau o ddelio ag anghydfodau rhwng rhieni ynglŷn â threfniadau ar gyfer plant, ar waith mewn rhai rhannau o Gymru a Lloegr o 2022 ymlaen.

wnaed o fewn y cyfnod pum mlynedd dilynol. Aseswyd ymwneud â chyfraith gyhoeddus am gyfnod o bum mlynedd cyn ac ar ôl eu cais cyfraith breifat cychwynnol. Sefydlwyd pedwar llwybr trosfwaol trwy'r llys, a rhoddwyd oedolion mewn grwpiau yn ôl eu math o gais cyfraith breifat cychwynnol fel ymgeisydd neu ymatebydd (safonol neu ansafonol), p'un a oeddent yn ymwneud â cheisiadau cyfraith breift dilynol, a ph'un a oeddent yn ymwneud â chais cyfraith gyhoeddus o fewn pum mlynedd o'u cais cyfraith breifat cychwynnol.

Ystyrir amrywiadau rhanbarthol yng nghyfran yr oedolion sy'n dilyn pob llwybr yn ôl cylchdaith llys yn Lloegr ac ardal Barnwr Teulu Dynodedig yng Nghymru.

Wrth wahaniaethu'r grwpiau o lwybrau, archwiliwn y mathau o orchmynion yr ymgeisiwyd amdanynt mewn ceisiadau cyfraith breifat cychwynnol, yn ogystal â rhywedd a rôl yr oedolion sy'n gysylltiedig. Ystyriwyd nodweddion demograffig oedolion a'r plentyn ieuengaf hefyd, gan gynnwys eu hoedran pan wnaed y cais cyfraith breifat cychwynnol, ethnigrwydd, anabledd[12] ac amddifadedd ar lefel ardal.

Mesurwyd amddifadedd ar lefel ardal gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Lloegr 2019 a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, a gysylltwyd trwy'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) a gofnodwyd ar adeg y cais. Trefnwyd ardaloedd mewn grwpiau o bum categori cyfartal (cwintel), gyda chwintel 1 yn cynrychioli'r ardaloedd mwyaf difreintiedig a chwintel 5 yn cynrychioli'r ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Yn ogystal, archwiliwn bresenoldeb sawl dangosydd pryderon lles a allai gael eu cofnodi gan Cafcass. Mae'r rhain yn cynnwys cofnodion ynglŷn â ffactorau risg oedolion, pryderon ynglŷn â cham-drin neu esgeuluso plant, a defnydd o adroddiadau ac ymchwiliadau a orchmynnwyd gan y llys (adroddiadau adran 7, adroddiadau adran 37 a phenodiadau rheol 16.4) o fewn tair blynedd o'r cais cyfraith breifat cychwynnol.

Mae'r dadansoddiadau'n ddisgrifiadol. Mae rhifau wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf. Mae canrannau wedi'u cyfrifo ar sail rhifau heb eu talgrynnu.

---

[12] Gall Cafcass gofnodi gwahanol fathau o anableddau, gan gynnwys anawsterau dysgu, ar gyfer oedolion a phlant ar unrhyw gam o achos. Gwnaethom gyfuno'r rhain yn un dangosydd anabledd ar gyfer pob unigolyn. Nid yw cofnodi'n orfodol ac mae wedi gwella ers y cyfnod sydd dan sylw yn y dadansoddiad hwn.

# Cryfderau a chyfyngiadau'r astudiaeth

Dyma'r astudiaeth gyntaf wedi'i seilio ar y boblogaeth i gynnal archwiliad llawn o'r llwybrau y mae oedolion sy'n ymwneud â cheisiadau cyfraith teulu breifat yn eu dilyn trwy'r llys, gan ddefnyddio data a gesglir fel mater o drefn gan Cafcass a Cafcass Cymru.[13] Mae'n archwilio'r gorchmynion a geisir ac yn disgrifio nodweddion oedolion sy'n dilyn gwahanol lwybrau trwy'r llys, gan gynyddu'r sylfaen dystiolaeth i lywio polisi ac ymarfer. Fodd bynnag, cydnabyddwn nifer o gyfyngiadau:

- Mae astudiaethau sydd wedi'u seilio ar ddata gweinyddol wedi'u cyfyngu o reidrwydd gan gwmpas ac ansawdd y data sydd ar gael, a gesglir yn bennaf at ddibenion trefnu a rheoli yn hytrach nag ymchwil.
- Mae'r astudiaeth hon yn adrodd ar orchmynion yr ymgeisiwyd amdanynt, nid gorchmynion a wnaed ar ddiwedd achosion, a allai fod yn wahanol am nifer o resymau, gan gynnwys tynnu'r cais yn ôl, dim gorchymyn, neu wneud gorchymyn gwahanol. Mae cronfa ddata Cafcass a Cafcass Cymru yn cofnodi gwybodaeth tra'u bod yn ymwneud ag achos, ac mewn achosion cyfraith breifat mae hyn yn aml yn dod i ben cyn y gwyddys canlyniad yr achos.
- Yn yr un modd, nid yw diwedd achosion cyfraith breifat yn cael ei gofnodi fel arfer yng nghronfeydd data Cafcass a Cafcass Cymru, sy'n golygu na ellir dadansoddi hyd achosion. Lle'r oedd oedolion wedi dychwelyd i'r llys mewn ceisiadau dilynol, rydym wedi cyfrifo'r amser o gyflwyno'r cais cychwynnol i gyflwyno ceisiadau dilynol (o fewn y cyfnod pum mlynedd dilynol). Ni allwn bennu hyd y bwlch rhwng setiau o achosion. Lle mae oedolion yn dychwelyd i'r llys mewn achosion dilynol, nid ydym yn gwybod canlyniad ceisiadau blaenorol.
- Pennir p'un a yw cais cyfraith breifat yn 'safonol' neu'n 'ansafonol' yn ôl perthynas yr oedolion â'r plentyn ieuengaf yn unig. O ganlyniad, mae'n bosibl y gallai rhai ceisiadau gynnwys ymgeisydd ac ymatebydd a gofnodwyd fel rhiant i'r plentyn ieuengaf ond mae gan un neu'r ddau berthynas wahanol â phlant eraill a restrir ar y cais (h.y. nid ydynt yn rhieni i'r holl blant ar y cais).
- Dylid bod yn ofalus wrth gymharu rhwng Cymru a Lloegr o ganlyniad i wahaniaethau mewn arferion cofnodi. Er enghraifft, mae ceisiadau mabwysiadu heb fod drwy asiantaeth yn cael eu cofnodi fel achosion cyfraith gyhoeddus yn Lloegr yn gyffredinol, ac fe'u cofnodir fel achosion cyfraith breifat yng Nghymru.
- Mae rhai dadansoddiadau, yn enwedig ar gyfer Cymru, wedi'u cyfyngu gan niferoedd bach.
- Deilliwyd dangosyddion ffactorau risg oedolion a phryderon ynglŷn â cham-drin ac esgeuluso plant o gofnod 'anghenion plant' nad yw'n orfodol yn system

[13] Ystyriodd adroddiadau blaenorol gan y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol (FJDP) yn Lloegr (Cusworth et al. 2020; 2021a) gyfran y rhieni a oedd yn ymwneud â chais eildro, ond nid oeddent yn gwahaniaethu rhwng mathau o geisiadau na'r gorgyffyrddiad ag achosion cyfraith gyhoeddus.

Cafcass. Mae hyn wedi''i seilio ar asesiad proffesiynol ymarferwyr Cafcass, sy'n asesu risg gan ddefnyddio offer asesu amrywiol. Er bod y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi ar ddechrau achos yn aml, fe allai gael ei diweddaru unrhyw bryd. Rydym wedi adlewyrchu terminoleg Cafcass yn gyffredinol, ond dewisom ddefnyddio'r termau 'camddefnyddio cyffuriau' a 'chamddefnyddio alcohol' (yn hytrach na 'defnyddio cyffuriau').

- Mae lefel y data sydd ar goll ar gyfer rhai nodweddion, gan gynnwys oedran, perthynas yr oedolyn â'r plentyn, amddifadedd ar lefel ardal ac ethnigrwydd, yn fwy na 10% ar gyfer rhai grwpiau o unigolion, sy'n cyfyngu ar y gallu i'w ddehongli. Rydym wedi nodi'r achosion hyn.

# Canfyddiadau

Rhwng 2016 a 2018, gwnaed cyfanswm o 126,710 o geisiadau cyfraith teulu breifat yn Lloegr a 9,630 yng Nghymru. Roedd tua dwy ran o dair o'r rhain (69% yn Lloegr a 65% yng Nghymru) yn gais cyntaf ar gyfer o leiaf un o'r oedolion a oedd yn gysylltiedig. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y llwybrau y mae'r oedolion hyn – 176,760 yn Lloegr a 12,710 yng Nghymru – yn eu dilyn trwy'r llys teulu.

## Llwybrau trwy'r llys


Mae'r adran hon yn disgrifio cyfran yr oedolion a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat cychwynnol yn 2016-18 a ddilynodd lwybrau gwahanol trwy'r llys, ar wahân ar gyfer Cymru a Lloegr. Gan ddefnyddio cyfnod pum mlynedd dilynol, amlygir pedwar prif lwybr:

- ymwneud, fel ymgeisydd neu ymatebydd, â chais cyfraith breifat unigol rhwng dau riant
- ymwneud â mwy nag un cais cyfraith breifat rhwng dau riant
- ymwneud ag un cais cyfraith breifat o leiaf rhwng rhieni ac un cais cyfraith gyhoeddus o leiaf
- ymwneud â chais cyfraith breifat sy'n cynnwys un unigolyn o leiaf nad yw'n rhiant.

### Lloegr


Roedd dros hanner (54%) yr oedolion a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat cychwynnol yn 2016-18 yn Lloegr yn ymgeisydd neu ymatebydd yn unig yn y cais safonol unigol hwnnw (rhwng dau riant), fel y gellir ei weld yn Ffigur 1. Roedd chwarter arall (26%) yn ymwneud â chais safonol cychwynnol ond wedi dychwelyd i'r llys o fewn pum mlynedd fel ymgeisydd neu ymatebydd mewn cais/ceisiadau cyfraith breifat ychwanegol. Roedd cyfran fach o oedolion (3%) yn ymwneud â chais cyfraith breifat safonol cychwynnol a chais cyfraith gyhoeddus (o fewn pum mlynedd o bob ochr i'w cais cyfraith breifat cychwynnol). Roedd cais cyfraith breifat cychwynnol yr 17% o oedolion a oedd yn weddill yn gais ansafonol, yn ymwneud ag oedolion nad oeddent yn rhiant i'r plentyn a oedd yn destun y cais.

**Ffigur 1: Llwybrau cyffredinol oedolion trwy'r llys (Lloegr)**




Er mwyn ystyried a oedd y llwybrau yr oedd oedolion yn eu dilyn trwy'r llys yn amrywio yn ôl rhanbarth, gwnaethom gyfrifo cyfran yr oedolion a ddilynodd bob prif lwybr ar gyfer y chwe chylchdaith llys yn Lloegr.

**Ffigur 2: Llwybrau a ddilynwyd gan oedolion mewn cais cyfraith breifat cychwynnol, yn ôl cylchdaith llys (Lloegr)**





Fel y gellir ei weld yn Ffigur 2, roedd cyfran yr oedolion yn y pedwar grŵp llwybr trosfwaol yn amrywio yn ôl cylchdaith llys. Gwelwyd y cyfrannau uchaf o oedolion a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat safonol unigol yng nghylchdeithiau Llundain (59%) a'r De-ddwyrain (56%). Roedd y gyfran uchaf o oedolion mewn ceisiadau rhieni a oedd yn dychwelyd (28%) yn y De-orllewin, tra bod cyfrannau uwch o oedolion a oedd yn ymwneud â cheisiadau ansafonol yn y Gogledd-orllewin a'r Gogledd-ddwyrain (19% yn y ddwy).

## Cymru

Yng Nghymru, roedd 45% o oedolion â chais cyfraith breifat cychwynnol yn 2016-18 yn ymwneud â chais safonol unigol, tra bod 30% yn ymwneud â chais safonol cychwynnol ond wedi dychwelyd i'r llys o fewn pum mlynedd fel ymgeisydd neu ymatebydd mewn ceisiadau cyfraith breifat ychwanegol (Ffigur 3). Roedd cyfran fach (3%) o oedolion yn ymwneud â chais safonol cychwynnol a chais cyfraith gyhoeddus, naill ai cyn neu ar ôl (neu'r ddau). Roedd y 22% o oedolion a oedd yn weddill yn ymwneud â chais ansafonol i ddechrau.


O gymharu â Lloegr, roedd cyfran is o oedolion yng Nghymru yn ymwneud â chais safonol unigol (45% o gymharu â 54%), tra bod cyfran uwch o oedolion wedi dychwelyd i'r llys mewn ceisiadau cyfraith breifat dilynol (30% o gymharu â 26%), ac roeddent yn ymwneud â chais ansafonol cychwynnol (22% o gymharu â 17%).

**Ffigur 3: Llwybrau cyffredinol oedolion trwy'r llys (Cymru)**




Gwnaethom archwilio cyfran yr oedolion ym mhob grŵp llwybr yn ôl ardal Barnwr Teulu Dynodedig, a chanfuom rywfaint o amrywiaeth (Ffigur 4). Roedd dychwelwyr yn fwy cyffredin yn Abertawe (34%) na De-ddwyrain Cymru (29%) a Gogledd Cymru (25%). I'r gwrthwyneb, roedd gan Abertawe gyfran is o oedolion â chais safonol unigol (42% o gymharu â 45% a 49%, yn ôl eu trefn) neu a oedd yn ymwneud â chyfraith gyhoeddus (2% o gymharu â 3% yn yr ardaloedd eraill).

**Ffigur 4: Llwybrau a ddilynwyd gan oedolion mewn cais cyfraith breifat cychwynnol, yn ôl ardal Barnwr Teulu Dynodedig (Cymru)**




# Gwahaniaethu llwybrau

Mae'r adran hon yn disgrifio nodweddion ceisiadau cychwynnol oedolion a wnaed yn 2016–18, wedi'u trefnu yn ôl y pedwar math o lwybr. Cyflwynir y canfyddiadau ar wahân ar gyfer Cymru a Lloegr.

Archwiliwn y mathau o orchmynion a geisiwyd gan oedolion yn eu ceisiadau cychwynnol, yn ogystal â'u rhywedd a'u rôl yn y cais (ymgeisydd neu ymatebydd). Ystyrir nodweddion oedolion a'r plentyn ieuengaf hefyd, gan gynnwys oedran pan wnaed y cais, ethnigrwydd, anabledd ac amddifadedd ar lefel ardal.

Yn ogystal, ar gyfer oedolion yn Lloegr, archwiliwn bresenoldeb sawl dangosydd lefel achos o bryderon lles, fel y'u cofnodwyd gan Cafcass.[14] Mae'r rhain yn gofnodion ynglŷn â ffactorau risg oedolion, pryderon ynglŷn â cham-drin neu esgeuluso plant, a defnydd o adroddiadau ac ymchwiliadau a orchmynnwyd gan y llys (adroddiadau adran 7, adroddiadau adran 37 a phenodiadau rheol 16.4) o fewn tair blynedd o ddechrau'r achos.

## Mathau o geisiadau cychwynnol a wnaed

### Lloegr

Dangosir y math o orchymyn a geisiwyd mewn ceisiadau cyfraith breifat cychwynnol gan oedolion yn y pedwar grŵp llwybr yn Ffigur 5. Nid oedd unrhyw wahaniaethau mawr rhwng y rhai a oedd yn ymwneud â chais safonol unigol a'r rhai a ddychwelodd i'r llys o fewn pum mlynedd. Roedd mwyafrif y ceisiadau cychwynnol ar gyfer gorchymyn trefniadau plentyn (CAO) 'treulio amser gyda' (41% a 39%, yn ôl eu trefn). Roedd pumed ran arall o geisiadau cychwynnol gan y grwpiau hyn ar gyfer CAO 'byw gyda' (21% a 22%). Roedd tua chwarter o'r


[14] Nid oedd y wybodaeth hon ar gael yn y data Cafcass Cymru a oedd ar gael ar gyfer y prosiect hwn.

ceisiadau cychwynnol gan y grwpiau hyn ar gyfer gorchymyn camau gwaharddedig (PSO) (26% a 29%), ac roedd cyfrannau llai ar gyfer gorchymyn mater penodol (SIO) (11% a 9%) neu orchymyn o fath arall (2%).

Pan roedd oedolion yn ymwneud â chais cyfraith gyhoeddus hefyd, roedd gwahaniaethau yn y gorchymyn a geisiwyd yn eu cais cyfraith breifat cychwynnol. Roedd cyfran uwch o geisiadau cychwynnol (27%) ar gyfer CAO 'byw gyda', ac roedd llai o geisiadau ar gyfer CAO 'treulio amser gyda' (29%). Yn ogystal, roedd cyfran fwy o geisiadau cychwynnol ar gyfer PSO (34%) nag yn y grwpiau llwybr eraill.

Mae'r mathau o orchmynion a geisiwyd o fewn ceisiadau cyfraith breifat ansafonol cychwynnol yn adlewyrchu'r cymhlethdod a welwyd mewn gwaith blaenorol gan y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol (FJDP) (Cusworth et al. 2023). Roedd dros hanner yr holl geisiadau ansafonol cychwynnol ar gyfer CAO: 22% ar gyfer 'treulio amser gyda' a 28% ar gyfer 'byw gyda'. Roedd 11% arall o geisiadau cychwynnol ar gyfer PSO, ac roedd 7% ar gyfer SIO. Roedd ceisiadau ar gyfer gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn cynrychioli 9% o'r ceisiadau cychwynnol gan y grŵp hwn, gydag 8% ar gyfer gorchymyn rhianta (achosion geni plant ar ran pobl eraill), 1% ar gyfer gorchymyn gorfodi, 2% ar gyfer gorchymyn cyfrifoldeb rhiant a 2% ar gyfer gorchymyn o fath arall.

**Ffigur 5: Gorchmynion a geisiwyd gan oedolion yn eu cais cyfraith breifat cychwynnol, yn ôl grŵp llwybr (Lloegr)**





## Cymru

Yng Nghymru, ni ellir gwahaniaethu rhwng ceisiadau CAO 'byw gyda' a 'threulio amser gyda' gan nad yw Cafcass Cymru yn cofnodi'r manylion hyn ar hyn o bryd. Ac eto, yn gyffredinol, roedd cyfran yr oedolion a oedd yn gwneud cais am drefniadau plentyn yn uwch nag yn Lloegr yn y pedwar grŵp llwybr (68–81%) (Ffigur 6). Nid oedd y mathau o orchmynion a geisiwyd yn amrywio llawer rhwng y tri grŵp a oedd yn ymwneud â chais safonol cychwynnol – p'un a oedd ganddynt un cais yn unig, wedi dychwelyd mewn cyfraith breifat, neu'n ymwneud â chais

cyfraith gyhoeddus hefyd. Yn y pedwar grŵp llwybr, roedd cyfrannau llai o oedolion yn ymwneud â chais cychwynnol ar gyfer SIO neu PSO nag yn Lloegr.

**Ffigur 6: Gorchmynion a geisiwyd gan oedolion yn eu cais cyfraith breifat cychwynnol, yn ôl grŵp llwybr (Cymru)**




## Nodweddion oedolion


### Lloegr

Rôl yn y cais a rhywedd

Fel yr amlygwyd mewn gwaith ymchwil blaenorol (Cusworth et al. 2021a; Cusworth et al. 2020), mae mwy o geisiadau cyfraith breifat rhwng rhieni sy'n gwahanu (ceisiadau safonol) yn cael eu gwneud gan dadau, gyda mamau'n ymatebydd. I ddangos y gwahaniaethau hyn o ran rhywedd, mae Ffigur 7 yn dangos rhywedd a rôl yn ôl grŵp llwybr ar gyfer oedolion yn eu cais cyfraith breifat cychwynnol. Roedd tua thraean (35%) o'r oedolion a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat unigol yn dadau a oedd yn ymgeiswyr, ac roedd traean arall (34%) yn famau a oedd yn ymatebwyr. Roedd mamau a oedd yn ymgeiswyr a thadau a oedd yn ymatebwyr yn cynrychioli 15% yr un. Nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng rhywedd a rôl oedolion mewn cais safonol unigol a'r rhai a ddychwelodd i'r llys mewn cyfraith breifat.

Fodd bynnag, lle'r oedd ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus hefyd, roedd ceisiadau cychwynnol yn cynnwys mwy o ymgeiswyr benywaidd ac ymatebwyr gwrywaidd. At ei gilydd, roedd cyfran fwy o oedolion a oedd yn ymwneud â chais ansafonol cychwynnol yn fenywaidd: 29% o ymgeiswyr benywaidd a 22% o ymatebwyr benywaidd. Unwaith eto, mae hyn yn adlewyrchu ein dadansoddiad blaenorol (Cusworth et al. 2023).


**Ffigur 7: Rhywedd a rôl oedolion yn eu cais cyfraith breifat cychwynnol, yn ôl grŵp llwybr (Lloegr)**




## Oedran

Dangosir dosbarthiad oedran oedolion ym mhob un o'r pedwar grŵp llwybr yn Ffigur 8. Roedd oedran cyfartalog oedolion a oedd yn ymwneud â chais safonol unigol a'r rhai a ddychwelodd mewn cyfraith breifat yn debyg – 35 a 34 oed, yn ôl eu trefn – er bod cyfran fwy o'r rhai a ddychwelodd i'r llys mewn cyfraith breifat yn iau na 35 oed pan wnaed eu cais cychwynnol (54% o gymharu â 50%). Roedd oedolion a oedd hefyd yn ymwneud â chyfraith gyhoeddus yn 32 oed ar gyfartaledd, a gwelwyd cyfrannau uwch yn y grwpiau oedran ieuengaf – roedd 4% yn 16–20 oed, ac roedd 13% yn 21–24 oed. Roedd oedolion a oedd yn ymwneud â chais ansafonol i ddechrau yn hŷn, sef 41 oed ar gyfartaledd. Roedd cyfrannau uwch o oedolion mewn ceisiadau ansafonol yn y grwpiau oedran hŷn, fel y gwelwyd mewn gwaith blaenorol, gan fod llawer o'r oedolion hyn yn rhieni-cu.


**Ffigur 8: Categori oedran oedolion yn eu cais cyfraith breifat cychwynnol, yn ôl grŵp llwybr (Lloegr)**




## Ethnigrwydd

Pan ystyriwn amrywiaeth ethnig oedolion mewn ceisiadau cyfraith breifat, gwelwn batrymau tebyg i gymariaethau blaenorol ag ethnigrwydd yn y boblogaeth gyffredinol (Alrouh et al. 2022), er bod rhai gwahaniaethau rhwng y gwahanol grwpiau llwybr (Ffigur 9). Er bod 81% o'r oedolion a oedd yn ymwneud â chais safonol unigol a'r rhai a ddychwelodd i'r llys yn Wyn, roedd y gyfran hon yn uwch ar gyfer y rhai a oedd hefyd yn ymwneud â chyfraith gyhoeddus (85%) a'r rhai a oedd yn ymwneud â chais ansafonol cychwynnol (86%). Mae oedolion o leiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o ddilyn y llwybrau hyn trwy'r llys. Mae'n werth amlygu bod lefel y data ethnigrwydd sydd ar goll yn uchel, ond yn amrywio ar draws y grwpiau llwybr – 17% ar gyfer y rhai mewn cais safonol unigol, 6% o'r rhai a ddychwelodd mewn cais cyfraith breifat, 7% o'r rhai a oedd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus a 27% o'r rhai a oedd yn ymwneud â chais ansafonol cychwynnol. Mae hefyd yn werth nodi bod trefniadau cofnodi ethnigrwydd Cafcass wedi gwella cryn dipyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**Ffigur 9: Ethnigrwydd oedolion, yn ôl grŵp llwybr (Lloegr)**





## Anabledd

Mae Ffigur 10 yn dangos cyfran yr oedolion ag anabledd a gofnodwyd gan Cafcass.[15] Mae'n dangos bod gan 6% o'r oedolion a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat unigol anabledd a gofnodwyd. Roedd hyn yn uwch ar gyfer oedolion a ddychwelodd o fewn cais cyfraith breifat (9%) a'r rhai a oedd yn ymwneud â chais ansafonol cychwynnol (8%). Roedd y lefel anabledd a gofnodwyd ymhlith oedolion a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat safonol cychwynnol ac achos cyfraith gyhoeddus yn uwch o lawer, gan fod anabledd wedi'i gofnodi ar gyfer bron un o bob pump (18%). Mae'r ffigurau hyn yn debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel, gan na ellir tybio bod pob anabledd yn cael ei ddatgelu neu ei gofnodi gan Cafcass.

Fe allai rhai o'r gwahaniaethau hyn adlewyrchu arferion cofnodi. Yn yr un modd ag ethnigrwydd, fe allai statws anabledd oedolion sy'n dychwelyd fod wedi cael ei gofnodi, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn sgil y gwelliant cyffredinol mewn trefniadau cofnodi. Mae'r wybodaeth hon hefyd yn fwy tebygol o gael ei chofnodi ar gyfer oedolion sy'n ymwneud ag achosion cyfraith gyhoeddus. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd gwella cofnodi ar ddechrau ceisiadau i sicrhau bod teuluoedd yn derbyn cymorth priodol.

[15] Gallai'r wybodaeth hon gael ei chofnodi gan Cafcass ar unrhyw adeg o fewn yr achosion cychwynnol neu ddilynol.


**Ffigur 10: Anabledd oedolion a gofnodwyd, yn ôl grŵp llwybr (Lloegr)**




### Amddifadedd ar lefel ardal

Sefydlodd adroddiadau blaenorol yng nghyfres *Datgelu Cyfraith Teulu Breifat* y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol (FJDP) fod cysylltiad clir rhwng amddifadedd a chyfraith breifat yn Lloegr am y tro cyntaf, gan fod ceisiadau'n cael eu gwneud yn anghymesur gan y rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig (Cusworth et al. 2021a; Cusworth et al. 2020, 2023). Gwelir y berthynas honno yma hefyd (Ffigur 11) gan fod dros hanner (51–52%) yr oedolion sy'n ymwneud â chais safonol unigol ac sy'n dychwelyd i'r llys mewn cyfraith breifat yn byw yn y ddau gwintel mwyaf difreintiedig. Mae'r gyfran hon yn uwch ar gyfer y rhai sydd hefyd yn ymwneud â chyfraith gyhoeddus (67%) a'r rhai sy'n ymwneud â chais ansafonol cychwynnol (58%).

**Ffigur 11: Amddifadedd oedolion ar lefel ardal, yn ôl grŵp llwybr (Lloegr)**




## Cymru

### Rôl yn y cais a rhywedd

Mae Ffigur 12 yn dangos rhywedd a rôl oedolion yn eu cais cyfraith breifat cychwynnol yng Nghymru, yn ôl grŵp llwybr. Yn yr un modd â Lloegr, nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng y rhai â chais unigol ac oedolion a oedd yn dychwelyd. Roedd tua thraean (37%) o'r oedolion a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat unigol yn dadau a oedd yn ymgeiswyr ac roedd traean (36%) yn famau a oedd yn ymatebwyr, tra bod 13% yn famau a oedd yn ymgeiswyr a 14% yn dadau a oedd yn ymatebwyr. Lle'r oedd ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus hefyd, roedd ceisiadau cychwynnol yn cynnwys cyfrannau uwch o ymgeiswyr benywaidd (21%) ac ymatebwyr gwrywaidd (20%). At ei gilydd, roedd cyfran fwy o'r oedolion a oedd yn ymwneud â chais ansafonol cychwynnol yn fenywaidd: 23% o ymgeiswyr benywaidd a 30% o ymatebwyr benywaidd.


**Ffigur 12: Rhywedd a rôl oedolion yn eu cais cyfraith breifat cychwynnol, yn ôl grŵp llwybr (Cymru)**




### Oedran

Dangosir dosbarthiad oedran oedolion ym mhob un o'r pedwar grŵp llwybr yng Nghymru yn Ffigur 13. Roedd oedran cyfartalog yr oedolion a oedd yn ymwneud â chais safonol unigol a'r rhai a ddychwelodd mewn cyfraith breifat yn debyg – 34 a 33 oed, yn ôl eu trefn – er bod cyfran uwch o'r rhai a ddychwelodd i'r llys mewn cyfraith breifat yn iau na 35 oed pan wnaed eu cais cychwynnol (63% o gymharu â 56%). Roedd oedolion a oedd hefyd yn ymwneud â chyfraith gyhoeddus yn 31 oed ar gyfartaledd, a gwelwyd cyfrannau uwch yn y grwpiau oedran ieuengaf, roedd 6% yn 16–20 oed, ac roedd 15% yn 21–24 oed. Roedd oedolion a oedd yn ymwneud â chais ansafonol i ddechrau yn hŷn, sef 40 oed ar gyfartaledd. Roedd cyfrannau uwch o oedolion mewn ceisiadau ansafonol yn y grwpiau oedran hŷn, fel y gwelwyd mewn gwaith blaenorol, gan fod llawer o'r oedolion hyn yn rhieni-cu.


**Ffigur 13: Categori oedran oedolion yn eu cais cyfraith breifat cychwynnol, yn ôl grŵp llwybr (Cymru)**




### Amddifadedd ar lefel ardal

Fel yn Lloegr, roedd oedolion a oedd yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o Gymru wedi'u gorgynrychioli ar draws y pedwar grŵp llwybr (Ffigur 14). Roedd tua hanner yr oedolion a oedd yn ymwneud â chais safonol unigol (52%) a hanner y rhai a ddychwelodd i'r llys mewn cyfraith breifat (54%) yn byw yn y ddau gwintel mwyaf difreintiedig. Roedd y gyfran hon yn uwch ar gyfer oedolion a oedd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus (65%). Er bod cyfran yr oedolion a oedd yn ymwneud â chais ansafonol cychwynnol a oedd yn byw yn y ddau gwintel mwyaf difreintiedig yn uwch (55%) nag ar gyfer oedolion mewn ceisiadau safonol, roedd y gwahaniaeth yn fach ac yn llai amlwg nag yn Lloegr.

**Ffigur 14: Amddifadedd oedolion ar lefel ardal, yn ôl grŵp llwybr (Cymru)**



## Nodweddion plant

### Lloegr

#### Nifer y plant a oedd yn destun cais

Fel y gwelwyd mewn gwaith ymchwil blaenorol, roedd mwyafrif y ceisiadau cyfraith breifat cychwynnol yn ymwneud ag un plentyn. Roedd hyn yn berthnasol i dair rhan o bump o'r oedolion a oedd yn ymwneud ag un cais safonol yn unig (60%), y rhai a ddychwelodd i'r llys mewn cyfraith breifat (58%) a'r rhai a oedd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus (57%). Roedd cyfran uwch o oedolion â chais cychwynnol ansafonol yn ymwneud â phlentyn unigol (67%).

#### Rhywedd y plentyn ieuengaf

Roedd tua hanner y plant ieuengaf yn y cais cychwynnol ar gyfer oedolion yn y pedwar grŵp llwybr yn ferched (49–51%) ac roedd hanner yn fechgyn (49–51%).[16]


#### Oedran y plentyn ieuengaf

O ran oedolion a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat safonol unigol, roedd y plentyn ieuengaf yn 5.2 oed, ar gyfartaledd. Lle'r oedd oedolion yn dychwelyd i'r llys mewn cyfraith breifat neu'n ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus hefyd, roedd y plentyn ieuengaf yn iau ar gyfartaledd (4.1 oed a 3.9 oed, yn ôl eu trefn). Mae Ffigur 15 yn dangos dosbarthiad grŵp oedran y plant ieuengaf mewn ceisiadau cychwynnol ar gyfer oedolion ym mhob un o'r pedwar grŵp llwybr. Roedd cyfrannau uwch o blant yn iau na blwydd oed neu'n 1-4 oed mewn ceisiadau a oedd yn ymwneud ag oedolion a ddychwelodd i'r llys mewn cyfraith breifat yn ddiweddarach neu a oedd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus, o gymharu â'r rhai ar gyfer oedolion a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat safonol unigol.

O ran oedolion a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat ansafonol cychwynnol, roedd y plentyn ieuengaf yn hŷn ar gyfartaledd, sef 5.7 oed. Fel y gwelwyd mewn dadansoddiad blaenorol (Cusworth et al. 2023), yn fwy aml, roedd y plentyn ieuengaf mewn ceisiadau ansafonol yn iau na blwydd oed neu'n 10 oed a hŷn, o gymharu â cheisiadau rhieni safonol.

[16] Roedd rhywedd cyfran fach iawn o blant (0.1%) wedi'i gofnodi'n 'arall' neu'n 'anhysbys'.


**Ffigur 15: Categori oedran y plentyn ieuengaf, yn ôl grŵp llwybr (Lloegr)**




### Ethnigrwydd y plentyn ieuengaf

Pan gymharwn amrywiaeth ethnig y plentyn ieuengaf yn y cais cychwynnol ar gyfer oedolion yn y pedwar grŵp llwybr, fe welwn batrwm cyffredinol tebyg i hwnnw ar gyfer yr oedolion (Ffigur 16). Er bod mwyafrif (76–77%) y plant a oedd yn ymwneud ag un cais cyfraith breifat yn unig neu a ddychwelodd mewn cyfraith breifat yn ddiweddarach yn Wyn, roedd y gyfran hon yn uwch ar gyfer y rhai a oedd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus (81%) neu gais ansafonol cychwynnol (80%). Cofnodwyd bod cyfran uwch o blant (11-12%) nag oedolion (2-3%) ym mhob un o'r pedwar grŵp llwybr yn perthyn i grwpiau ethnig cymysg neu luosog. Yn yr un modd ag ethnigrwydd oedolion, mae'n werth nodi bod lefel y data ethnigrwydd sydd ar goll ar gyfer plant yn uchel, ond yn amrywio ar draws y grwpiau llwybr – 20% ar gyfer y rhai mewn cais safonol unigol, 7% o'r rhai a ddychwelodd mewn cais cyfraith breifat, 10% o'r rhai a oedd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus a 22% o'r rhai a oedd yn ymwneud â chais ansafonol cychwynnol.


**Ffigur 16: Ethnigrwydd y plentyn ieuengaf, yn ôl grŵp llwybr (Lloegr)**




### Anabledd plant a gofnodwyd

Mae Ffigur 17 yn dangos, ar gyfer oedolion ym mhob un o'r pedwar grŵp llwybr, cyfran yr achosion lle'r oedd gan un plentyn o leiaf a oedd yn destun y cais anabledd a gofnodwyd gan Cafcass ar unrhyw adeg. Roedd hyn yn 8% ar gyfer ceisiadau cyfraith breifat unigol, 11% ar gyfer dychwelyd o fewn cyfraith breifat, 13% ar gyfer y rhai a oedd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus, a 9% ar gyfer ceisiadau ansafonol cychwynnol.

**Ffigur 17: Anabledd plant a gofnodwyd, yn ôl grŵp llwybr (Lloegr)**



## Cymru

### Nifer y plant a oedd yn destun cais

Roedd mwyafrif y ceisiadau cychwynnol ar gyfer oedolion ym mhob un o'r pedwar grŵp llwybr yn ymwneud â phlentyn unigol, heb lawer o amrywiaeth ar draws grwpiau (62%-64%). Mae hyn yn cyferbynnu â Lloegr, lle'r oedd cyfran uwch o geisiadau cychwynnol ansafonol yn ymwneud ag un plentyn. Roedd cyfran uwch o geisiadau cyfraith breifat cychwynnol ar gyfer oedolion a oedd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus yn cynnwys tri neu fwy o blant (12%), o gymharu â 7-10% ar gyfer oedolion yn y grwpiau eraill.

### Rhywedd y plentyn ieuengaf

Roedd tua hanner y plant ieuengaf yn y ceisiadau cyfraith breifat cychwynnol ar gyfer oedolion yn y pedwar grŵp llwybr yn ferched (48–53%) ac roedd hanner yn fechgyn (47%–52%).


### Oedran y plentyn ieuengaf

O ran oedolion a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat safonol unigol, roedd y plentyn ieuengaf yn 5.0 oed, ar gyfartaledd. Lle'r oedd oedolion yn dychwelyd i'r llys mewn cyfraith breifat neu'n ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus hefyd, roedd y plentyn ieuengaf yn iau ar gyfartaledd (3.9 oed a 3.2 oed, yn ôl eu trefn). O ran oedolion a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat ansafonol cychwynnol, roedd y plentyn ieuengaf yn hŷn ar gyfartaledd, sef 6.0 oed.

Mae Ffigur 18 yn dangos dosbarthiad grŵp oedran y plant ieuengaf mewn ceisiadau cychwynnol ar gyfer oedolion ym mhob un o'r pedwar grŵp llwybr.

O gymharu â Lloegr, roedd cyfran lai o geisiadau ansafonol yn ymwneud â phlentyn ieuengaf a oedd yn iau na blwydd oed.

**Ffigur 18: Categori oedran y plentyn ieuengaf, yn ôl grŵp llwybr (Cymru)**



## Dangosyddion pryderon lles

Mae'r adran hon yn disgrifio dangosyddion pryderon lles a gofnodwyd yn ystod yr achos y mae cais cychwynnol oedolyn yn rhan ohono, gan gymharu presenoldeb pryderon o'r fath ar gyfer oedolion yn y pedwar grŵp llwybr yn Lloegr.[17] Mae hyn wedi'i seilio ar b'un a gofnodwyd adroddiad lles adran 7 (gan Cafcass neu awdurdod lleol), adroddiad adran 37, a/neu benodi gwarcheidwad o dan reol 16.4 yn y data gweinyddol o fewn 36 mis o ddyddiad dechrau'r achos y mae cais cychwynnol yr oedolyn yn rhan ohono.[18]

Gall Cafcass hefyd gofnodi'r ffactorau risg sy'n fwyaf perthnasol i'r achos yn seiliedig ar asesiad gweithwyr cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys pryderon ynglŷn â cham-drin a/neu esgeuluso'r plentyn/plant sy'n destun yr achos a nifer o anghenion neu ffactorau risg oedolion a phlant. Er bod y wybodaeth hon nad yw'n orfodol yn cael ei chofnodi'n aml ar ddechrau achos, gellid ei diweddaru unrhyw bryd, o ganlyniad i alwadau diogelu â phartïon, ac nid yw presenoldeb pryderon o'r fath a adroddir yma'n gysylltiedig o reidrwydd â chais cychwynnol oedolyn.

### Ymchwiliadau lles a orchmynnwyd gan y llys

Mae Ffigur 19 yn dangos cyfran yr oedolion y gorchmynnwyd adroddiad lles mewn perthynas â'u cais cyfraith breifat cychwynnol o fewn 36 mis o ddyddiad dechrau'r achos.

At ei gilydd, gorchmynnodd y llys adroddiad lles yn achosion hanner yr oedolion (50%) a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat unigol. Roedd hyn ychydig yn uwch (54%) ar gyfer oedolion a ddychwelodd i'r llys ar gyfer ceisiadau cyfraith breifat dilynol, ac yn uwch fyth (62%) ar gyfer y rhai a oedd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus. Fel y gwelwyd yn ein gwaith blaenorol, roedd cyfran is o oedolion a oedd yn ymwneud â chais ansafonol i ddechrau (42%) mewn achos lle y gorchmynnwyd un o'r adroddiadau lles hyn.

Nid oedd gorchymyn adroddiadau adran 7 yn amrywio llawer ar gyfer oedolion a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat safonol unigol, y rhai a ddychwelodd i'r llys mewn cyfraith breifat neu a oedd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus (46–50%). Fodd bynnag, roedd pwy y gofynnwyd iddo gynnal yr ymchwiliadau lles hyn yn amrywio. Gofynnwyd i'r awdurdod lleol ddarparu adroddiad adran 7 yn achos chwarter yr oedolion a oedd hefyd yn ymwneud â chyfraith gyhoeddus (25%), o gymharu â 9% yn unig o'r rhai a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat unigol ac 11% o'r rhai a ddychwelodd i'r llys mewn cyfraith breifat. I'r gwrthwyneb, roedd Cafcass yn fwy tebygol o fod wedi cael cais i ddarparu adroddiad adran 7 yn yr achosion hyn (39–40%) nag mewn achosion oedolion a oedd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus.

Nid yw'n syndod bod y barnwr wedi gorchymyn adroddiad adran 37 o fewn achos cyfraith breifat cychwynnol cyfran fwy o oedolion a oedd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus (14% o gymharu â 2-3% o oedolion yn y grwpiau llwybr

---


[17] Nid oedd y data ar gyfer Cymru ar gael ar gyfer y prosiect hwn.

[18] Gweler Hargreaves et al. 2022, 2024, i gael rhagor o wybodaeth am y marcwyr hyn, gan gynnwys eu cyfyngiadau. Yr hyn sy'n arbennig o nodedig yw y gallai'r ffigurau yma fod yn amcangyfrif rhy fach, gan fod Cafcass yn cofnodi gwybodaeth ar ei gronfa ddata tra'i fod yn ymwneud ag achos yn unig. Yn aml, defnyddir ymwneud gan yr awdurdod lleol fel rheswm i gau'r achos ar system Cafcass, felly ni fydd gwybodaeth ar gael ar ôl i'r barnwr orchymyn, er enghraifft, bod awdurdod lleol yn ymgymryd ag adroddiad adran 7.

eraill). Ymchwiliwn i'r defnydd o adroddiadau adran 37 ar gyfer y grŵp hwn o oedolion yn ddiweddarach.

Roedd cyfran fwy o oedolion a oedd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus a'r rhai a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat ansafonol cychwynnol mewn achos lle y penodwyd gwarcheidwad i gynrychioli buddiannau'r plentyn yn annibynnol (9% a 7%, o gymharu â 4% o'r grwpiau eraill).

**Ffigur 19: Cyfran yr oedolion y gorchmynnwyd un neu fwy o adroddiadau lles mewn perthynas â nhw o fewn 36 mis o ddyddiad dechrau'r achos, yn ôl grŵp llwybr (Lloegr)**




### Ffactorau risg oedolion a gofnodwyd

Daw gwybodaeth am ffactorau risg oedolion o wybodaeth a gofnodwyd gan ymarferwyr Cafcass, sy'n asesu unrhyw bryderon a risgiau ar lefel achos gan ddefnyddio offer asesu perthnasol. Dylid nodi nad yw'r maes hwn yn orfodol; felly, mae'r data'n debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel.

Mae cyfran yr oedolion â ffactorau risg penodol a gofnodwyd yn ôl grŵp llwybr yn amrywio (Ffigur 20). Yn gyffredinol, mae gan gyfran fwy o oedolion sy'n dychwelyd i'r llys mewn cyfraith breifat a'r rhai sydd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus ffactorau risg wedi'u cofnodi ar ryw adeg, o gymharu ag oedolion sy'n ymwneud â chais cyfraith breifat unigol. Mae cyfran yr oedolion sy'n ymwneud â chais ansafonol cychwynnol sydd â ffactorau risg a gofnodwyd yn amrywio. Gan fod Cafcass yn gallu cofnodi'r wybodaeth hon unrhyw bryd, fe allai rhywfaint o'r amrywiad a welir ddeillio o arferion cofnodi, gan fod mwy o gyfleoedd i gofnodi'r wybodaeth hon mewn achosion sy'n dychwelyd. Mae Cafcass yn ymwneud ag achosion cyfraith gyhoeddus i raddau mwy o lawer, felly mae'n fwy tebygol bod ffactorau risg yn cael eu nodi yn y ffeil achos.


Y ffactor risg a gofnodwyd amlaf oedd cam-drin domestig, a oedd yn berthnasol i 37% o oedolion a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat unigol. Roedd y gyfran yn uwch ar gyfer oedolion a ddychwelodd i'r llys mewn cyfraith breifat (53%) ac yn uwch fyth ar gyfer oedolion a oedd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus (63%). Cofnodwyd pryderon ynglŷn â cham-drin domestig ar

lefel achos ar gyfer 29% o oedolion a oedd yn ymwneud â chais ansafonol cychwynnol. O ystyried nad oes rhaid i ymarferwyr Cafcass gofnodi'r wybodaeth hon, nid yw'n syndod bod y ffigurau hyn yn is nag amcangyfrifon blaenorol o gyffredinrwydd cam-drin domestig mewn achosion preifat, gan gynnwys yr adolygiad diweddar o ffeiliau achos llys ar gyfer y Comisiynydd Cam-drin Domestig (Burton a Hunter, 2025).

Cofnododd Cafcass bryderon ynglŷn â gwrthdaro difrifol rhwng rhieni ar gyfer chwarter (26%) o'r oedolion a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat unigol. Cofnodwyd hyn ar gyfer ychydig yn fwy o oedolion a oedd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus (30%), ond ar gyfer bron dwywaith cymaint o oedolion a ddychwelodd i'r llys mewn cyfraith breifat (46%). O ran oedolion a oedd yn ymwneud ag achosion cyfraith breifat nad ydynt yn ymwneud â rhieni, cofnodwyd pryderon ynglŷn â gwrthdaro difrifol rhwng rhieni mewn un rhan o bump (18%) o'r achosion. Nid yw'n glir a fyddai unrhyw wrthdaro rhwng y rhieni a'r bobl nad ydynt yn rhieni sy'n ymwneud ag achosion o'r fath yn cael ei gofnodi fel mater o drefn.

Mae pryderon a gofnodwyd ynglŷn ag iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau a chamddefnyddio alcohol yn dangos yr un patrwm wrth gymharu grwpiau o oedolion mewn gwahanol lwybrau. Gwelwyd y lefelau isaf o bryderon ar gyfer y rhai a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat unigol, gyda phob un o'r ffactorau risg hyn wedi'u cofnodi ar gyfer rhwng 12% a 15% o oedolion. Cofnodwyd pryderon ynglŷn ag iechyd meddwl (25%, 20%), camddefnyddio cyffuriau (20%, 20%) a chamddefnyddio alcohol (17%, 15%) ar gyfer cyfran uwch o oedolion a ddychwelodd i'r llys mewn cyfraith breifat neu a oedd yn ymwneud â chais ansafonol i ddechrau. Ond roedd y pryder mwyaf ynglŷn ag oedolion a oedd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus, y cofnodwyd pryderon ynglŷn ag iechyd meddwl (39%) neu gamddefnyddio cyffuriau (38%) ar gyfer bron dwy ran o bump ohonynt, ac y cofnodwyd pryderon ynglŷn â chamddefnyddio alcohol ar gyfer 28% ohonynt.

**Ffigur 20: Ffactorau risg oedolion a gofnodwyd, yn ôl grŵp llwybr (Lloegr)**




### Pryderon cam-drin ac esgeuluso plant a gofnodwyd


Roedd cyfran yr oedolion y cofnodwyd cam-drin a/neu esgeuluso plant yn bryder ar eu cyfer yn yr achos yn amrywio (Ffigur 21). Roedd y pryderon isaf ar gyfer

oedolion a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat unigol, ac roedd y pryderon uchaf ar gyfer y rhai a oedd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus.

Cam-drin emosiynol oedd y math o gam-drin plant a gofnodwyd amlaf fel pryder mewn achosion cyfraith breifat. Roedd hyn yn bryder yn achosion un rhan o bump (22%) o rieni a oedd yn ymwneud â chais safonol unigol, gan gynyddu i 36% o rieni a ddychwelodd mewn cyfraith breifat a 46% o rieni a oedd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus. Cofnodwyd cam-drin emosiynol fel pryder yn achosion tua chwarter (26%) o'r oedolion a oedd yn ymwneud i ddechrau â chais nad yw'n ymwneud â rhieni.

Gwelwyd patrwm tebyg ar gyfer pryderon a gofnodwyd am gam-drin corfforol ac esgeulustod. Cofnodwyd pryderon ynglŷn ag esgeuluso plant (5%) neu gam-drin corfforol (6%) ar gyfer un o bob ugain o oedolion a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat unigol. Cofnodwyd y pryderon hyn ar gyfer bron dwywaith cymaint o oedolion a ddychwelodd i'r llys o fewn cyfraith breifat (8% ar gyfer esgeuluso ac 11% ar gyfer cam-drin corfforol). Ond lle'r oedd oedolion yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus hefyd, cofnodwyd esgeulustod mewn traean o'r achosion (34%) a cham-drin corfforol mewn un rhan o bump ohonynt (21%). Er bod pryderon ynglŷn â cham-drin rhywiol wedi'u cofnodi'n llai aml, gwelwyd yr un gwahaniaethau, gyda phryderon wedi'u cofnodi ar gyfer 2% o oedolion a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat unigol, 4% o'r rhai a ddychwelodd i'r llys mewn cyfraith breifat ac 8% o'r rhai a oedd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus.

**Ffigur 21: Pryderon cam-drin ac esgeuluso plant a gofnodwyd, yn ôl grŵp llwybr (Lloegr)**




# Dychwelyd i'r llys mewn cyfraith breifat

Mae'r adran hon yn edrych yn fanylach ar lwybrau a phrofiadau rhieni sy'n ymwneud â mwy nag un cais cyfraith breifat, hynny yw, maen nhw'n dychwelyd o fewn pum mlynedd o'u cais cychwynnol mewn un neu fwy o geisiadau cyfraith breifat dilynol.

## I ba raddau y dychwelir i’r llys

**Lloegr**
Fel yr adroddwyd uchod, o’r holl oedolion a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat cychwynnol fel ymgeisydd neu ymatebydd yn 2016-18 yn Lloegr, dychwelodd tua chwarter (26%) gyda chais cyfraith breifat dilynol o fewn pum mlynedd. Os eithriwn y rhai â cheisiadau ansafonol cychwynnol a’r rhai a oedd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus, roedd bron traean o rieni (31%) a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat safonol cychwynnol wedi dychwelyd i’r llys. Er gwaethaf gwahaniaethau mewn amserlenni a diffiniad, mae hyn yn debyg i gyfran y dychwelwyr a welwyd mewn astudiaethau blaenorol (Cusworth et al. 2021a; Cusworth et al. 2020; Halliday et al. 2017; Trinder et al. 2005).

Roedd cyfran y rhieni a ddychwelodd yn amrywio yn ôl cylchdaith llys, o 30% yn Llundain i 33% yn y De-ddwyrain, y Canolbarth a’r Gogledd-ddwyrain, 34% yn y Gogledd-orllewin a 35% yn y De-orllewin.

**Cymru**
Yng Nghymru, roedd 30% o’r holl oedolion â chais cyfraith breifat cychwynnol yn 2016-18 yn rhieni a oedd wedi dychwelyd gyda chais cyfraith breifat dilynol o fewn pum mlynedd. Ac eithrio’r rhai a oedd yn ymwneud ag achos nad oedd yn ymwneud â rhieni neu achos cyfraith gyhoeddus, mae hyn yn golygu bod dwy ran o bump (39%) o rieni wedi dychwelyd i’r llys am achos cyfraith breifat arall o fewn pum mlynedd.

Roedd cyfran yr oedolion a ddychwelodd i’r llys yn amrywio yn ôl ardal Barnwr Teulu Dynodedig, o 34% yng Ngogledd Cymru i 39% yn Ne-ddwyrain Cymru a 45% yn Abertawe.

## Nifer y ceisiadau dychwelyd

**Lloegr**
Nifer y ceisiadau dychwelyd oedd 1.5, ar gyfartaledd. Roedd dwy ran o dair (67%) o oedolion wedi dychwelyd i’r llys unwaith yn unig yn ystod y pum mlynedd ar ôl eu cais cychwynnol, tra bod 22% wedi dychwelyd ddwywaith, ac roedd 11% wedi dychwelyd i’r llys deirgwaith neu fwy.

**Cymru**
Yn yr un modd, yng Nghymru, nifer y ceisiadau dychwelyd oedd 1.6, ar gyfartaledd. Roedd ychydig yn llai na dwy ran o dair o oedolion (63%) wedi dychwelyd i’r llys unwaith yn ystod y pum mlynedd ar ôl eu cais cychwynnol, tra bod 23% wedi dychwelyd ddwywaith, ac roedd 15% wedi dychwelyd deirgwaith neu fwy.

## Amser i’r cais dychwelyd cyntaf

**Lloegr**
Yr amser (cymedrig) cyfartalog o gyflwyno’r cais cychwynnol i gyflwyno’r cais dychwelyd cyntaf oedd 21 mis, er bod y rhai a ddychwelodd nifer fwy o weithiau’n dychwelyd yn gyflymach. Ar gyfartaledd, roedd oedolion a oedd yn ymwneud ag un cais dilynol yn dychwelyd 24 mis ar ôl i’r cais cychwynnol gael ei gyflwyno, tra bod y rhai a ddychwelodd ddwywaith wedi dychwelyd gyntaf ar ôl 17 mis, ac


roedd y rhai a ddychwelodd deirgwaith neu fwy wedi dychwelyd gyntaf ar ôl 12 mis.

**Cymru**
Roedd ceisiadau ailadrodd yn cael eu gwneud ychydig yn gynt yng Nghymru na Lloegr. Yr amser (cymedrig) cyfartalog o gyflwyno'r cais cychwynnol i gyflwyno'r cais dychwelyd cyntaf oedd 19 mis. Fel yn Lloegr, roedd oedolion a oedd yn ymwneud â mwy o geisiadau dilynol yn dychwelyd yn gyflymach. Ar gyfartaledd, roedd oedolion a oedd yn ymwneud ag un cais dilynol yn dychwelyd 21 mis ar ôl i'r cais cychwynnol gael ei gyflwyno, tra bod y rhai a ddychwelodd ddwywaith wedi dychwelyd gyntaf ar ôl 17 mis, ac roedd y rhai a ddychwelodd deirgwaith neu fwy wedi dychwelyd gyntaf ar ôl 13 mis.

## Rolau rhyweddol mewn ceisiadau dychwelyd


**Lloegr**
Gwnaethom ystyried rôl – ymgeisydd neu ymatebydd – y rhieni yn eu ceisiadau cychwynnol a dychwelyd. Roedd tua hanner y mamau (49%) a'r tadau (50%) wedi bod yn ymgeisydd ac yn ymatebydd yn eu ceisiadau cyfraith breifat cychwynnol a dychwelyd. Roedd tadau'n fwy tebygol o fod yn ymgeisydd (40%) bob amser na mamau (9%). I'r gwrthwyneb, roedd mamau'n fwy tebygol o fod yn ymatebydd (42%) bob amser na thadau (10%) (Ffigur 22).

**Ffigur 22: Rhywedd a rôl mewn ceisiadau dychwelyd (Lloegr)**




**Cymru**
Fel y gwelwyd yn Lloegr, roedd tua hanner y mamau (47%) a'r tadau (49%) wedi bod yn ymgeisydd ac yn ymatebydd yn eu ceisiadau cyfraith breifat cychwynnol a dychwelyd. Roedd tadau'n fwy tebygol o fod yn ymgeisydd (41%) bob amser na mamau (10%). I'r gwrthwyneb, roedd mamau'n fwy tebygol o fod yn ymatebydd (43%) bob amser na thadau (10%) (Ffigur 23).

**Ffigur 23: Rhywedd a rôl mewn ceisiadau dychwelyd (Cymru)**





## Y math o orchymyn a geisiwyd mewn ceisiadau cychwynnol a dychwelyd

**Lloegr**

Dangosir y math o orchymyn a geisiwyd mewn ceisiadau cychwynnol, dychwelyd cyntaf a dychwelyd am yr eildro yn Ffigur 24. Roedd cyfran fwy o geisiadau cychwynnol oedolion ar gyfer CAO 'treulio amser gyda' (39%) o gymharu â dychweliadau cyntaf (26%) a dychweliadau am yr eildro (22%). Yn yr un modd, lleihaodd cyfran y ceisiadau ar gyfer PSO o 29% o geisiadau cychwynnol i 17% o ddychweliadau cyntaf a 15% o ddychweliadau am yr eildro. I'r gwrthwyneb, cynyddodd cyfran y ceisiadau SIO o 9% o geisiadau cychwynnol i 14% o ddychweliadau cyntaf ac 16% o ddychweliadau am yr eildro. Roedd ceisiadau ar gyfer gorchmynion gorfodi yn cynrychioli 22% o ddychweliadau cyntaf a 27% o ddychweliadau am yr eildro.

**Ffigur 24: Y math o orchymyn a geisiwyd mewn ceisiadau cychwynnol a dychwelyd (Lloegr)**





## Cymru

Dangosir y math o orchymyn a geisiwyd mewn ceisiadau cychwynnol, dychwelyd cyntaf a dychwelyd am yr eildro yng Nghymru yn Ffigur 25.

Roedd mwyafrif (81%) ceisiadau cychwynnol oedolion ar gyfer CAO, gan leihau i oddeutu hanner y dychweliadau cyntaf (54%) a'r dychweliadau am yr eildro (52%). Lleihaodd cyfran y ceisiadau am PSO hefyd, o 12% o geisiadau cychwynnol i 6% o ddychweliadau cyntaf a dychweliadau am yr eildro. Yn wahanol i Loegr, nid oedd defnydd cynyddol o SIO, a oedd yn cynrychioli 6-8% o geisiadau cychwynnol a dychwelyd. Roedd gorchmynion gorfodi'n cynrychioli cyfran debyg o geisiadau dychwelyd ag yn Lloegr: 24% o ddychweliadau cyntaf a 26% o ddychweliadau am yr eildro.

**Ffigur 25: Y math o orchymyn a geisiwyd mewn ceisiadau cychwynnol a dychwelyd (Cymru)**




## Cyfuniadau allweddol o orchmynion

Gwnaethom archwilio'r mathau o orchmynion a geisiwyd mewn ceisiadau cychwynnol a cheisiadau dychwelyd cyntaf oedolion yn Lloegr, yn ôl p'un a oedd yr ymgeisydd bob amser yn fam, bob amser yn dad, neu a oedd rôl yr ymgeisydd yn newid. Adroddwn yma ar y cyfuniadau mwyaf cyffredin, ond mae hyn yn cuddio'r cymhlethdod. Oherwydd y niferoedd llai o geisiadau, nid oedd modd ymchwilio hyn yng Nghymru.

Pan roedd yr ymgeisydd yn dad bob amser, roedd y ceisiadau'n ymwneud amlaf â threfniadau cyswllt. Roedd tua un rhan o bump (21%) yn ymwneud â cheisiadau ailadroddus am CAO 'treulio amser gyda', ac roedd pumed ran arall (20%) yn ymwneud â chais CAO 'treulio amser gyda' cychwynnol, a ddilynwyd gan gais am orchymyn gorfodi.

Pan roedd yr ymgeisydd yn fam bob amser, roedd y cyfuniadau'n ymwneud amlaf ag atgyfnerthu gyda phwy yr oedd y plentyn yn byw neu drefniadau gwneud penderfyniadau. Mewn 9% o achosion, roedd y cais cychwynnol a'r cais dychwelyd cyntaf ar gyfer CAO 'byw gyda', mewn 13% roedd y ddau gais ar gyfer PSO, ac mewn 9% dilynwyd cais cychwynnol ar gyfer PSO gan gais ar gyfer SIO.

Pan roedd yr ymgeisydd yn newid rhwng y fam a'r tad, roedd y patrymau'n fwy cymhleth a gellid disgwyl iddynt amrywio yn dibynnu ar bwy wnaeth y cais cyntaf. Y cyfuniadau mwyaf cyffredin oedd cais cychwynnol ar gyfer PSO a ddilynwyd gan naill ai CAO 'treulio amser gyda' (9%), CAO 'byw gyda' (8%) neu ail gais ar gyfer PSO (9%).

# Y gorgyffyrddiad â chyfraith gyhoeddus

Mae'r adran hon yn disgrifio'n fanylach y grŵp o rieni a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat safonol cychwynnol yn 2016-18 ac a oedd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus o fewn y pum mlynedd cyn neu ar ôl y cais cychwynnol hwn. Yn Lloegr, roedd 4% o rieni â chais cyfraith breifat safonol cychwynnol hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus, sy'n cynrychioli 3% o'r holl oedolion mewn cais cychwynnol yn 2016-18. Yng Nghymru, roedd 3% o'r holl rieni mewn cais safonol cychwynnol yn y grŵp hwn, a oedd (oherwydd niferoedd isel) hefyd yn cynrychioli 3% o'r holl oedolion â chais cyfraith breifat cychwynnol yn 2016-18. O ganlyniad i'r niferoedd cymharol fach o oedolion mewn cais cyfraith breifat safonol yng Nghymru a oedd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus, rydym wedi canolbwyntio ar Loegr yn unig ar gyfer yr adran hon o'r adroddiad.

Roedd mwyafrif y rhieni (84%) yn ymwneud ag un achos cyfraith gyhoeddus yn unig, ac roedd hyn gan amlaf yn dilyn eu cais cyfraith breifat safonol cychwynnol (78%). Ar gyfer bron un rhan o bump (18%), dechreuodd achos cyfraith gyhoeddus cyn eu cais cyfraith breifat cychwynnol, ac roedd cyfran fach o rieni (4%) yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus cyn ac ar ôl eu cais cyfraith breifat cychwynnol.

O ran rhieni a oedd yn ymwneud â chyfraith gyhoeddus cyn eu cais cyfraith breifat cychwynnol, roedd 31 mis yn mynd heibio, ar gyfartaledd, o'r cais cyfraith gyhoeddus cynharaf i ddechrau'r cais cyfraith breifat. O ran y rhai ag achos cyfraith gyhoeddus a ddechreuodd ar ôl eu cais cyfraith breifat cychwynnol, roedd hyn yn digwydd 23 mis yn ddiweddarach, ar gyfartaledd.

## Llwybrau cyfraith breifat i gyhoeddus

Mae sawl cyfyngiad yn gysylltiedig ag archwilio llwybrau oedolion sy'n ymwneud â chais cyfraith breifat safonol ac achos cyfraith gyhoeddus gan ddefnyddio data gweinyddol Cafcass. Gan nad yw Cafcass fel arfer yn ymwneud ag achosion cyfraith breifat hyd at y diwedd, nid yw'r gorchymyn cyfreithiol a wnaed ar ddiwedd yr achos yn cael ei gofnodi. Felly, gallwn ystyried y gorchymyn a geisiwyd yn unig. Er bod y gorchymyn a wnaed ar ddiwedd achos cyfraith gyhoeddus yn cael ei gofnodi yn y data, nid yw bob amser yn glir gyda phwy yr oedd y plentyn yn byw ar ddiwedd yr achos (rhieni, gofalwyr maeth neu ofalwyr sy'n berthnasau), felly mae'n rhaid gwneud rhai tybiaethau.

O ran rhieni y dilynwyd eu cais cyfraith breifat cychwynnol gan achos cyfraith gyhoeddus, y llwybrau mwyaf cyffredin oedd cais am SIO neu PSO, a ddilynwyd gan achos gofal lle y gwnaed gorchymyn gofal (16%) neu a ddaeth i ben heb wneud gorchymyn, ac felly tybir bod y plentyn yn byw gyda'i riant/rhieni (11%). Roedd llwybrau eraill cyffredin yn cynnwys cais am CAO 'treulio amser gyda' neu CAO 'byw gyda' a ddilynwyd gan achos gofal lle y gwnaed gorchymyn gofal (11% ac 11%, yn ôl eu trefn).

## Llwybrau cyfraith gyhoeddus i breifat

O ran rhieni a oedd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus cyn eu cais cyfraith breifat cychwynnol, y llwybrau mwyaf cyffredin oedd achos gofal a ddaeth i ben heb wneud gorchymyn, ac felly tybir bod y plentyn yn byw gyda'i riant/rhieni, a ddilynwyd gan gais cyfraith breifat am CAO 'treulio amser gyda' (16%), CAO 'byw


gyda' (11%) neu SIO neu PSO (11%). Ar gyfer rai rhieni, daeth achos gofal i ben gyda gorchymyn gofal ac fe'i dilynwyd gan gais cyfraith breifat am CAO 'treulio amser gyda' (9%) neu SIO neu PSO (9%).

## Defnydd o adran 37

O fewn achos cyfraith breifat, caiff y llys orchymyn yr awdurdod lleol i baratoi adroddiad adran 37, sy'n archwilio a yw'r pryderon lles sy'n ymwneud â'r achos mor ddifrifol fel y dylai'r awdurdod lleol wneud cais am orchymyn gofal neu oruchwylio. Gall hyn ysgogi achos gofal.

Mae Ffigur 26 yn dangos cyfran y rhieni a oedd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus ar ôl eu cais cyfraith breifat cychwynnol lle'r oedd y llys wedi gorchymyn ymchwiliadau adran 37, a sut oedd yn hyn amrywio yn ôl cylchdaith llys. At ei gilydd, gorchmynnodd y llys adroddiad adran 37 ar gyfer 15% o oedolion yn yr amgylchiadau hyn. Fodd bynnag, roedd yn amrywio tipyn yn ôl cylchdaith llys, o 20% yn y Gogledd-ddwyrain a'r Gogledd-orllewin i 6% yn unig yn y De-orllewin.

**Ffigur 26: Defnydd o adroddiadau adran 37 (oedolion a oedd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus ar ôl cais cyfraith breifat cychwynnol), yn ôl cylchdaith llys (Lloegr)**




# Ceisiadau ansafonol cychwynnol

Yn yr adran hon, archwiliwn lwybrau'r grŵp o oedolion a oedd yn ymwneud â chais ansafonol i ddechrau, gan gynnwys a wnaethant ddychwelyd i'r llys mewn ceisiadau cyfraith breifat dilynol neu a oeddent hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus. Fel yr adroddwyd yn gynharach, mae'r grŵp hwn yn cynrychioli 17% o'r oedolion yn Lloegr a 22% o'r oedolion yng Nghymru a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat cychwynnol yn 2016–18. Unwaith eto, o ganlyniad i niferoedd isel, mae'r dadansoddiad hwn wedi'i gyfyngu i Loegr.

## Pobl nad ydynt yn rhieni sy'n dychwelyd i'r llys

### Graddau dychwelyd i'r llys

O'r holl oedolion â chais cyfraith breifat ansafonol cychwynnol yn Lloegr yn 2016-18, dychwelodd 17% gyda chais cyfraith breifat dilynol o fewn pum mlynedd. Ac eithrio'r rhai a oedd hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus, mae hyn yn cynrychioli 19% o'r oedolion â chais cyfraith breifat ansafonol cychwynnol. Mae hyn yn is na chyfran y rhieni mewn cais safonol cychwynnol a ddychwelodd i'r llys o fewn pum mlynedd (33%).

Roedd cyfran yr oedolion a ddychwelodd yn amrywio yn ôl cylchdaith llys, o 18% o oedolion yn y Canolbarth a'r Gogledd-ddwyrain i 19% yn Llundain a'r Gogledd-orllewin, 20% yn y De-ddwyrain a 21% yn y De-orllewin.

### Nifer y ceisiadau dychwelyd

Roedd 1.3 o geisiadau dychwelyd, ar gyfartaledd. Dychwelodd dri chwarter (75%) yr oedolion i'r llys unwaith yn unig yn ystod y pum mlynedd ar ôl eu cais cychwynnol, tra bod 18% wedi dychwelyd ddwywaith, ac roedd 7% wedi dychwelyd i'r llys deirgwaith neu fwy.


### Amser i'r cais dychwelyd cyntaf

Yr amser (cymedrig) cyfartalog o gyflwyno'r cais cychwynnol i gyflwyno'r cais dychwelyd cyntaf oedd 19 mis, er bod y rhai a ddychwelodd nifer fwy o weithiau'n dychwelyd yn gyflymach (yn yr un modd ag oedolion mewn cais safonol cychwynnol). Ar gyfartaledd, roedd oedolion a oedd yn ymwneud ag un cais dilynol yn dychwelyd 21 mis ar ôl i'r cais cychwynnol gael ei gyflwyno, tra bod y rhai a ddychwelodd ddwywaith wedi dychwelyd gyntaf ar ôl 16 mis, ac roedd y rhai a ddychwelodd deirgwaith neu fwy wedi dychwelyd gyntaf ar ôl 11 mis.

### Y math o orchmynion a geisiwyd mewn ceisiadau cychwynnol a dychwelyd

Dangosir y math o orchymyn a geisiwyd mewn ceisiadau cychwynnol, dychwelyd cyntaf a dychwelyd am yr eildro yn Ffigur 27, sy'n cyfleu darlun amrywiol a chymhleth iawn.

**Ffigur 27: Y math o orchymyn mewn ceisiadau cychwynnol (ansafonol) a dychwelyd (Lloegr)**




## Gorgyffyrddiad â chyfraith gyhoeddus

At ei gilydd, roedd 11% o'r oedolion a oedd yn ymwneud â chais cyfraith breifat ansafonol cychwynnol yn Lloegr yn 2016-18 hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus o fewn y pum mlynedd blaenorol neu ddilynol. Mae hyn yn cynrychioli 2% o'r holl oedolion â chais cyfraith breifat cychwynnol yn 2016-18. O gymharu â rhieni a oedd yn ymwneud â chais safonol cychwynnol, roedd cyfran uwch o oedolion a oedd yn ymwneud â chais ansafonol cychwynnol hefyd yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus (11% o gymharu â 4%).

Roedd mwyafrif yr oedolion (81%) yn ymwneud ag un achos cyfraith gyhoeddus yn unig.

Ar gyfer bron hanner yr oedolion (49%), digwyddodd yr achos cyfraith gyhoeddus ar ôl eu cais cyfraith breifat cychwynnol. Ond ar gyfer 44% o oedolion, fe ddilynodd achos cyfraith gyhoeddus – yn wahanol i'r patrwm ar gyfer rhieni mewn cais safonol cychwynnol. Roedd yr oedolion a oedd yn weddill (8%) yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus cyn ac ar ôl eu cais cyfraith breifat cychwynnol.

O ran oedolion a oedd yn ymwneud â chyfraith gyhoeddus cyn eu cais cyfraith breifat cychwynnol, roedd 32 mis yn mynd heibio, ar gyfartaledd, o'r cais cyfraith gyhoeddus cynharaf i ddechrau'r cais cyfraith breifat. O ran y rhai ag achos cyfraith gyhoeddus a ddechreuodd ar ôl eu cais cyfraith breifat cychwynnol, roedd hyn yn digwydd 20 mis yn ddiweddarach, ar gyfartaledd.

### Llwybrau cyfraith breifat i gyhoeddus

Er bod llawer o wahanol gyfuniadau, o ran oedolion y dilynwyd eu cais cyfraith breifat cychwynnol gan achos cyfraith gyhoeddus, y llwybr mwyaf cyffredin, mewn bron un rhan o bump (18%) o'r achosion, oedd cais yn ymwneud ag oedolion heblaw am rieni'r plentyn ar gyfer CAO 'treulio amser gyda' a ddilynwyd gan achos cyfraith gyhoeddus a ddaeth i ben gyda gorchymyn gofal. Ar gyfer 13% o

oedolion, dilynwyd cais yn ymwneud ag oedolion heblaw am rieni'r plentyn ar gyfer CAO 'treulio amser gyda' gan achos cyfraith gyhoeddus a ddaeth i ben gyda gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig neu CAO (lle gellid tybio bod y plentyn yn byw gyda gofalwyr sy'n berthnasau).

### Llwybrau cyfraith gyhoeddus i breifat

Ymhlith oedolion ag achos cyfraith gyhoeddus cyn eu cais cyfraith breifat cychwynnol, y llwybrau mwyaf cyffredin oedd bod achos gofal yn dod i ben gyda gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig neu CAO a thybir bod y plentyn yn byw gyda theulu neu ffrindiau, a ddilynwyd gan gais cyfraith breifat yn ymwneud â rhiant neu deulu estynedig, ar gyfer CAO 'byw gyda' (21%), CAO 'treulio amser gyda' (12%), SIO neu PSO (7%). Roedd 7% arall o lwybrau'n ymwneud ag achos gofal a ddaeth i ben heb wneud gorchymyn, felly gellid tybio bod y plentyn yn byw gyda'i riant/rhieni, a dilynwyd hyn gan gais yn ymwneud â phobl nad ydynt yn rhieni am CAO 'treulio amser gyda'.

# Trafodaeth

Archwiliodd y gwaith ymchwil hwn lwybrau oedolion trwy'r llys teulu yn dilyn cais cyfraith breifat, gan ystyried sut mae rhyngweithiadau â'r llys yn amrywio dros amser ac yn ôl nodweddion, anghenion a ffactorau risg y teulu. Gan ddefnyddio data gweinyddol gan Cafcass a Cafcass Cymru, amlygwyd pedwar prif lwybr: ceisiadau unigol rhwng rhieni; ceisiadau dychwelyd rhwng rhieni; achosion yn ymwneud â chyfraith breifat a chyhoeddus; a cheisiadau yn ymwneud ag oedolion nad ydynt yn rhieni.

Nid oedd y rhan fwyaf o'r rhieni a wnaeth gais cyfraith breifat wedi dychwelyd i'r llys. Fodd bynnag, roedd lleiafrif sylweddol wedi dychwelyd: daeth tua thraean o rieni yn Lloegr (31%) a dwy ran o bump yng Nghymru (39%) yn ôl i'r llys ar gyfer achos cyfraith breifat arall o fewn pum mlynedd. Yn bwysig, pan ddychwelodd rhieni, gwnaethant hynny unwaith yn unig yn gyffredinol. Roedd dwy ran o dair o rieni a ddychwelodd yn Lloegr (67%) ac ychydig yn llai na dwy ran o dair yng Nghymru (63%) wedi gwneud un cais dychwelyd. Mae'r canfyddiadau hyn yn herio'r canfyddiad bod achosion cyfraith breifat yn ymwneud ag ymgyfreitha ailadroddus a pharhaus, fel arfer.

Roedd rhieni a oedd yn dychwelyd i'r llys yn tueddu i wneud hynny'n gymharol gyflym. Ar gyfartaledd, gwnaed y cais dychwelyd cyntaf llai na dwy flynedd ar ôl y cais cychwynnol (21 mis yn Lloegr a 19 mis yng Nghymru), sy'n gyfnod cymharol fyr i ddisgwyl i amgylchiadau'r teulu fod wedi newid yn sylweddol. Dychwelodd grŵp llai o rieni fwy nag unwaith, ac roedd y cyfnod i'r dychweliad cyntaf yn fyrrach fyth ar gyfer y teuluoedd hyn. Mae'r patrwm hwn yn awgrymu, ar gyfer lleiafrif o deuluoedd, y gallai fod yn arbennig o anodd cyflawni datrysiad parhaol trwy achos cyfraith breifat. Mae'n codi cwestiynau pwysig ynglŷn â ph'un a yw ymyriadau llys cychwynnol yn cynorthwyo rhieni'n gyson i wneud trefniadau diogel, ymarferol a chynaliadwy, neu a oes diffyg o ran amlygu a mynd i'r afael yn llawn â materion sylfaenol ar adeg y cais cyntaf. Mae angen mwy o ymchwil i archwilio a ellir amlygu'r achosion hyn yn gynharach a ph'un a allai cymorth ychwanegol ar gam cynnar leihau ymgyfreitha ailadroddus.

Mae natur ceisiadau dychwelyd hefyd yn taflu goleuni ar yr amgylchiadau sy'n ysgogi ymwneud pellach gan y llys. Roedd patrymau rhyweddol clir yn amlwg: roedd ceisiadau dychwelyd tadau'n ymwneud amlaf â threfniadau i dreulio amser gyda phlant, tra bod ceisiadau dychwelyd mamau'n ymwneud amlaf â ble mae plant yn byw neu sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud. Roedd tua chwarter y ceisiadau dychwelyd yn ymwneud â gorfodi, er bod absenoldeb gwybodaeth am y gorchmynion a wnaed ar ddiwedd yr achos cychwynnol yn cyfyngu ar y gallu i ddehongli. Yn Lloegr, ond nid yng Nghymru, roedd cyfran uwch o geisiadau dychwelyd ar gyfer SIO, hefyd. Fe allai hyn awgrymu nad yw rhai rhieni'n cael eu cynorthwyo'n ddigonol i ddatrys anghytundebau yn y dyfodol ynglŷn â threfniadau ar gyfer plant heb ymyrraeth bellach gan y llys. Yn hytrach na dangos methiant cynhenid y system cyfraith breifat, fe allai ceisiadau ailadroddus fod yn arwydd o drefniadau nad ydynt yn cael eu gweithredu, y rhai nad ydynt yn gweithio mwyach dros amser, neu newidiadau i amgylchiadau'r teulu yr ystyrir mai dychwelyd i'r llys yw'r unig opsiwn i fynd i'r afael â nhw.

Nid oedd llawer o wahaniaethau o bwys rhwng nodweddion cychwynnol rhieni a ddychwelodd a'r rhai na ddychwelodd, er bod anableddau a ffactorau risg a gofnodwyd (cam-drin domestig, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, pryderon lles plant) yn fwy cyffredin ymhlith y rhai a ddychwelodd. Fe allai hyn adlewyrchu anghenion uwch, ond fe allai ddeillio o fwy o ymwneud proffesiynol a mwy o gyfleoedd i Cafcass amlygu a chofnodi pryderon pan fydd teuluoedd yn ymwneud â sawl cais. Er hynny, mae'r canfyddiadau'n pwysleisio pwysigrwydd cofnodi anghenion a ffactorau risg yn gynhwysfawr ac yn systematig ar ddechrau pob achos. Os nad yw risgiau a heriau'n cael eu hamlgu'n llawn yn ystod yr achos cychwynnol, fe allai cyfleoedd i ddarparu cymorth priodol gael eu colli, a allai gynyddu'r tebygolrwydd o ymwneud gan y llys yn y dyfodol.

Roedd amrywiadau daearyddol nodedig mewn cyfraddau dychwelyd i'r llys. Roedd rhieni yng Nghymru yn fwy tebygol o ddychwelyd na rhieni yn Lloegr, ac yn Lloegr gwelwyd y cyfraddau dychwelyd uchaf yn y De-orllewin, a'r isaf yn Llundain. Mae gwaith ymchwil blaenorol (Hargreaves et al. 2024) wedi dangos bod llai o adroddiadau lles a orchmynnwyd gan y llys yn y De-orllewin, a allai awgrymu nad yw materion sy'n cyfrannu at ddychwelyd yn ddiweddarach yn cael eu harchwilio'n ddigonol bob amser yn ystod yr achos cychwynnol. Mae angen mwy o ymchwil, ond mae hyn yn codi cwestiynau pwysig ynglŷn ag amlygu risgiau ac anghenion yn gynnar. Bydd yn bwysig gwerthuso a yw dull datrys problemau'r Llys Braenaru yn arwain at ganlyniadau mwy cynaliadwy, ac felly llai o ddychweliadau i'r llys.

Roedd lleiafrif bach ond pwysig o deuluoedd (4% yn Lloegr a 3% yng Nghymru) yn ymwneud ag achos cyfraith breifat a chyhoeddus o fewn pum mlynedd. Daeth cyfraith breifat yn gyntaf fel arfer, a ddilynwyd gan un achos cyfraith gyhoeddus tua dwy flynedd yn ddiweddarach. Dim ond lleiafrif o'r trosglwyddiadau hyn oedd yn cynnwys adroddiad adran 37, sy'n awgrymu bod uwchgyfeirio i gyfraith gyhoeddus yn aml yn digwydd y tu allan i'r broses cyfraith breifat ffurfiol. Roedd teuluoedd yn y grŵp gorgyffwrdd hwn yn wynebu'r heriau mwyaf, gan gynnwys lefelau uwch o amddifadedd a'r lefelau uchaf a gofnodwyd o gam-drin domestig, pryderon iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a phryderon lles plant. Er bod y grŵp hwn yn fach yn rhifiadol, dylid rhoi sylw arbennig iddo, oherwydd fe allai achosion cyfraith breifat fod yn gyfle allweddol i amlygu risgiau a chymorth yn gynharach.

Roedd ceisiadau cyfraith breifat yn ymwneud â phobl nad ydynt yn rhieni (17% yn Lloegr a 22% yng Nghymru) yn amrywio, yn aml yn ymwneud â threfniadau gofal gan berthynas, ac roedd y canfyddiadau'n cadarnhau gwaith ymchwil cynharach (Cusworth et al. 2023). Roedd yr oedolion hyn yn hŷn yn gyffredinol, yn fwy tebygol o fyw mewn ardaloedd difreintiedig, ac yn fwy tebygol o fod â phryderon lles plant a phryderon ynglŷn ag iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau wedi'u cofnodi, o gymharu â rhieni a ddaeth i'r llys unwaith yn unig. Er gwaethaf lefelau uwch o anghenion a gofnodwyd, roedd adroddiadau lles yn cael eu gorchymyn yn llai aml mewn achosion nad ydynt yn ymwneud â rhieni, sy'n codi cwestiynau pwysig am sut mae risgiau'n cael eu hasesu a sut mae llais y plentyn yn cael ei glywed yn yr achosion hyn.

Yn ogystal, roedd oedolion mewn achosion nad ydynt yn ymwneud â rhieni yn fwy tebygol na'r rhai mewn cais rhwng dau riant o fod yn ymwneud ag achos cyfraith gyhoeddus hefyd, naill ai cyn neu ar ôl yr achos cyfraith breifat. Mewn rhai achosion, fe allai hyn fod oherwydd pan wneir cais cyfraith breifat, mae pryderon lles o fewn yr achos yn golygu bod rhaid i achos gofal gael ei gychwyn. Mewn

achosion eraill, mae rhiant yn gwneud cais cyfraith breifat ar gyfer CAO ‘byw gyda’ ar ôl i achos gofal ddod i ben gyda phlentyn yn byw gyda gofalwyr sy’n berthnasau. Yn y ddwy sefyllfa, mae angen ystyried pam na ellid datrys yr holl faterion o fewn un achos, er mwyn lleihau’r gofid a’r aflonyddwch i deuluoedd a’r effaith ar y system cyfiawnder teulu gymaint â phosibl. Mae angen ymchwilio i hyn yn y dyfodol, yn enwedig o ystyried y pwyslais cynyddol ar bwysigrwydd gofal gan berthynas.

Nid oedd data ethnigrwydd ar gael gan Cafcass Cymru, ac roedd lefel uchel ac amrywiol o ddata ar goll yn Lloegr. Er y gwelwyd rhywfaint o amrywiaeth mewn cynrychiolaeth ethnig ar draws llwybrau, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli’r canfyddiadau hyn. Mae’n rhaid gwneud gwelliannau parhaus i gofnodi ethnigrwydd yn gyson i allu dadansoddi amrywiaeth ac anghydraddoldeb posibl yn fwy cadarn o fewn achosion cyfraith breifat.

# Casgliad

Mae’r gwaith ymchwil hwn yn darparu gwybodaeth newydd bwysig am lwybrau teuluoedd trwy achosion cyfraith breifat, ond mae bylchau sylweddol mewn tystiolaeth yn parhau. Er bod data gweinyddol gan Cafcass a Cafcass Cymru yn cynnig gwybodaeth werthfawr ar lefel y boblogaeth, mae ei gwmpas yn gyfyngedig ac mae’r anallu i gysylltu’r data hwn â data llysoedd teulu’r Weinyddiaeth Gyfiawnder a data Cyfrifiad 2021 yn golygu na ellid archwilio rhai agweddau ar achosion, fel hyd yr achos, cynrychiolaeth gyfreithiol a’r gorchmynion cyfreithiol a wnaed. Yn ogystal, ni all data gweinyddol gyfleu cymhlethdod llawn profiadau teuluoedd unigol.

Mae’r bylchau hyn mewn data yn rhwystr sylweddol rhag datblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o brofiadau teuluoedd yn y llysoedd teulu. Mae’n rhaid rhoi blaenoriaeth i ddatrys heriau cysylltu data er mwyn cryfhau’r sylfaen dystiolaeth ar gyfer polisi ac ymarfer cyfraith breifat. Dylai dadansoddi data gweinyddol hefyd gael ei ategu gan adolygu ffeiliau llys ac ymchwil ansoddol gyda theuluoedd ac ymarferwyr i sicrhau bod diwygiadau yn y dyfodol wedi’u seilio ar y dystiolaeth fwyaf cyflawn a chywir sydd ar gael.

# Cyfeiriadau


Alrouh, B., Hargreaves, C., Cusworth, L., Broadhurst, K., North, L., Griffiths, L., Doebler, S., Akbari, A., Farr, I. a Cowley, L. (2022). *What do we know about ethnic diversity in the family justice system in England?* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. www.nuffieldfjo.org.uk/resource/what-do-we-know-about-ethnicity-in-the-family-justice-system-in-england

Bedston, S. J., Pearson, R. J., Jay, M., Broadhurst, K., Gilbert, R. a Wijlaars, L. (2020). Data Resource: Children and Family Court Advisory and Support Service (Cafcass) public family law administrative records in England. *International Journal of Population Data Science*, *5*(1). https://doi.org/10.23889/ijpds.v5i1.1159

Cheng, Z. a Cusworth, L. (2025). *Exploring routes through court for families in private law proceedings: A review of the evidence.* Y Ganolfan Ymchwil Cyfiawnder Plant a Theuluoedd, Prifysgol Caerhirfryn. Pathways_evidence_review_December2025.pdf

Cusworth, L., Bedston, S., Trinder, L., Broadhurst, K., Pattinson, B., Johnson, R. D., Alrouh, B., Doebler, S., Akbari, A., Lee, A., Griffiths, L. J. a Ford, D. V. (2020). *Datgelu cyfraith teulu breifat: Pwy sy'n dod i'r llys yng Nghymru?* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. www.nuffieldfjo.org.uk/resource/private-family-law-whos-coming-to-court-wales

Cusworth, L., Bedston, S., Alrouh, B., Broadhurst, K., Johnson, R. D., Akbari, A. a Griffiths, L. J. (2021a). *Uncovering private family law: Who's coming to court in England?* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. www.nuffieldfjo.org.uk/resource/private-family-law-whos-coming-to-court-england

Cusworth, L., Hargreaves, C., Alrouh, B., Broadhurst, K., Johnson, R., Griffiths, L., Akbari, A., Doebler, S. a John, A. (2021b). *Datgelu cyfraith teulu breifat: Nodweddion a ffactorau risg oedolion.* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. www.nuffieldfjo.org.uk/resource/uncovering-private-family-law-adult-characteristics-and-vulnerabilities-wales

Cusworth, L., Hargreaves, C., Alrouh, B., North, L., Cowley, L., Abouelenin, M., Doebler, S., Griffiths, L. a Broadhurst, K. (2023). *Datgelu cyfraith teulu breifat: Archwilio ceisiadau sy'n ymwneud â phobl nad ydynt yn rhieni ('y 10% arall').* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. www.nuffieldfjo.org.uk/resource/uncovering-private-family-law-exploring-applications-that-involve-non-parents

Ford, D. V., Jones, K. H., Verplancke, J. P., Lyons, R. A., John, G., Brown, G., Brooks, C. J., Thompson, S., Bodger, O., Couch, T. a Leake, K. (2009). The SAIL Databank: Building a national architecture for e-health research and evaluation. *BMC Health Services Research*, 9, 157. https://doi.org/10.1186/1472-6963-9-157

Griffiths, L. J., McGregor, J., Johnson, R., Broadhurst, K., Pouliou, T., Cusworth, L., North, L., Ford, D. a John, A. (2022). *Datgelu cyfraith teulu breifat: Gorbryder ac iselder ymhlith plant a phobl ifanc.* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. www.nuffieldfjo.org.uk/resource/uncovering-private-family-law-anxiety-and-depression-among-children-and-young-people

Halliday, E., Green, R. a Marsh, B. (2017). *Private law cases that return to court: a Cafcass study.* www.cafcass.gov.uk/sites/default/files/migrated/private_law_cases_that_return_to_court_-_cafcass_research_november_2017.pdf

Hargreaves, C., Cusworth, L., Alrouh, B., Broadhurst, K., Cowley, L., Abouelenin, M., Doebler, S., Akbari, A., Farr, I. a North, L. (2022). *Uncovering private family law: What can the data tell us about children's participation?* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. www.nuffieldfjo.org.uk/resource/uncovering-private-family-law-what-can-the-data-tell-us-about-childrens-participation

Hargreaves, C., Cusworth, L., Alrouh, B., Broadhurst, K., Griffiths, L., Cowley, L. a Doebler, S. (2024). *Datgelu cyfraith teulu breifat: Pa mor aml ydym ni'n clywed llais y plentyn?* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. www.nuffieldfjo.org.uk/resource/uncovering-private-family-law-how-often-do-we-hear-the-voice-of-the-child

Hunter, R. a Burton, M. (2025). *Everyday Business: Addressing domestic abuse and continuing harm through a family court review and reporting mechanism*. Y Comisiynydd Cam-drin Domestig. www.domesticabusecommissioner.uk/wp-content/uploads/2025/10/Everyday-Business-full-report-web.pdf

Johnson, R. D., Ford, D. V., Broadhurst, K., Cusworth, L., Jones, K. H., Akbari, A., Bedston, S., Alrouh, B., Doebler, S., Lee, A., Smart, J., Thompson, S., Trinder, L. a Griffiths, L. J. (2020). Data Resource: Population level family justice administrative data with opportunities for data linkage. *International Journal of Population Data Science*, 5(1). https://doi.org/10.23889/ijpds.v5i1.1339

Jones, K. H., Ford, D. V., Thompson, S. a Lyons, R. A. (2020). A profile of the SAIL databank on the UK secure research platform. *International Journal of Population Data Science*, 4(2). https://doi.org/10.23889/ijpds.v4i2.1134

Jones, K. H., Ford, D. V., Jones, C., Dsilva, R., Thompson, S., Brooks, C. J., Heaven, M. L., Thayer, D. S., McNerney, C. L. a Lyons, R. A. (2014). A case study of the secure anonymous information linkage (SAIL) gateway: A privacy-protecting remote access system for health-related research and evaluation. *Journal of Biomedical Informatics*, 50. https://doi.org/10.1016/j.jbi.2014.01.003

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2025). *Family Court Statistics Quarterly: October to December 2024.* www.gov.uk/government/statistics/family-court-statistics-quarterly-october-to-december-2024/family-court-statistics-quarterly-october-to-december-2024

North, L., Akbari, A., Cowley, L., Alrouh, B., Hargreaves, C., Cusworth, L., Broadhurst, K., Farr, I., Doebler, S., Abouelenin, M., Smart, J., Ford, D. a Griffiths, L. (2022). *Beth ydym yn ei wybod am amrywiaeth ethnig yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru?* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. www.nuffieldfjo.org.uk/resource/what-do-we-know-about-ethnic-diversity-in-the-family-justice-system-in-wales

Trinder, L., Connolly, J., Kellett, J. a Notley, C. (2005). *A profile of applicants and respondents in contact cases in Essex.* Yr Adran Materion Cyfansoddiadol. http://www.familieslink.co.uk/download/july07/Profile%20of%20Appl%20and%20respondents%20in%20Essex.pdf

# Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield

Mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yn troi ymchwil, cydweithio a syniadau newydd yn brofiadau gwell i blant a theuluoedd yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr.

Sefydlwyd Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield gan Sefydliad Nuffield, sef ymddiriedolaeth elusennol annibynnol sy'n ceisio hybu lles cymdeithasol. Mae'n ariannu ac yn cynnal gwaith ymchwil trylwyr, yn annog arloesedd, ac yn cefnogi defnyddio tystiolaeth gadarn i lywio polisi cymdeithasol ac economaidd a gwella bywydau pobl. Sefydliad Nuffield yw sylfaenydd a chyd-ariannwr Cyngor Biofoeseg Nuffield a Sefydliad Ada Lovelace, hefyd.

Rydym bob amser yn awyddus i ehangu ein rhwydwaith o bartneriaid a byddem yn gwahodd unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwella bywydau plant a theuluoedd yn y system cyfiawnder teuluol i gysylltu â ni.

# Partneriaid ymchwil

### Y Ganolfan Ymchwil Cyfiawnder Plant a Theuluoedd

Mae'r Ganolfan Ymchwil Cyfiawnder Plant a Theuluoedd yn cael ei chynnal ar y cyd gan Ysgol y Gyfraith ac Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerhirfryn, ac mae'n dod ag academyddion, ymarferwyr a llunwyr polisïau ynghyd. Mae ymchwil yn y Ganolfan yn archwilio sut mae systemau cyfiawnder teuluol yn gweithredu a chwestiynau ehangach am gyfiawnder cymdeithasol ac anghydraddoldeb. Nod y Ganolfan yw datblygu ymchwil o'r radd flaenaf sy'n ceisio gwella bywydau plant, pobl ifanc a theuluoedd.

### Banc Data SAIL

Mae'r data Cafcass a Cafcass Cymru a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon ar gael o'r Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) ym Mhrifysgol Abertawe, sy'n rhan o'r seilwaith ymchwil cofnodion e-iechyd cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae'n rhaid i bob cynnig i ddefnyddio'r data hwn gael ei adolygu a'i gymeradwyo gan Banel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (IGRP) SAIL. Pan roddir mynediad, fe'i ceir trwy hafan ddiogel sy'n diogelu preifatrwydd a system mynediad o bell, y cyfeirir ati fel Porth SAIL. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyrchu data ddilyn canllawiau'r broses ymgeisio sydd ar gael yn: www.saildatabank.com/application-process

| | |
|---|---|
| E-bost | contactfjo@nuffieldfoundation.org |
| Rhif ffôn | +44 (0)20 7631 0566 |
| Gwefan | nuffieldfjo.org.uk |
| LinkedIn | Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield |

© Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield 2026
100 St John St, Llundain EC1M 4EH
Rhan o Sefydliad Nuffield: Elusen gofrestredig 206601